Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

## Fframwaith ar gyfer arolygu gwasanaethau oedolion a phlant

OGL © Hawlfraint y Goron
WG51907
Digital ISBN 978-1-83715-478-4

## Cynnwys


**Cyflwyniad ..... 4**

**Adran 1: Cymhwyso graddau ..... 7**

Rhoi Sicrwydd ..... 7

Cymhwyso graddau gan ddefnyddio disgrifyddion ..... 7

Y fframwaith gwneud penderfyniadau sicrhau gwelliant ..... 9

Anawsterau wrth bennu gradd ..... 11

Adborth yn dilyn arolygiad ..... 11

Cyflwyno adroddiadau ..... 12

Sut gall darparwyr ymateb i adroddiad arolygu? ..... 13

Cofnodi ac arddangos graddau ..... 14

Sicrhau gwelliannau ..... 14

**Adran 2: Llinellau ymholi a disgrifyddion graddau ..... 16**

Thema arolygu: Llesiant ..... 19

Thema arolygu: Gofal a Chymorth ..... 34

Thema arolygu: Yr amgylchedd ..... 48

Thema Arolygu: Arweinyddiaeth a Rheolaeth ..... 54

## Cyflwyniad

1. Mae’r fframwaith hwn yn rhoi canllawiau i arolygwyr a darparwyr gwasanaethau mewn perthynas â dull AGC o arolygu a chymhwyso graddau ar gyfer arolygiadau o wasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref a arolygir o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016[1] (Deddf 2016).

2. Dylid darllen y fframwaith ar y cyd â'n Cod Ymarfer ar gyfer Arolygu gwasanaethau rheoleiddiedig[2] ac, i arolygwyr, y canllawiau ymarfer mewnol perthnasol sy'n gysylltiedig ag arolygu, casglu tystiolaeth ac ysgrifennu adroddiadau.

3. Mae'r broses arolygu yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd; mae hefyd yn helpu gwasanaethau i wella'n barhaus. Mae'r fframwaith hwn yn helpu i ddisgrifio'r canlyniadau i bobl ac i lywio pa raddau y byddwn yn eu dyfarnu.

4. Wrth arolygu, rydym yn ystyried pedair thema sy'n gysylltiedig â'r rheoliadau a'r canllawiau statudol
   - Llesiant,
   - Gofal a Chymorth,
   - Arweinyddiaeth a Rheolaeth
   - Yr amgylchedd (ar gyfer gwasanaethau llety yn unig)

5. Mae'n bwysig cofio bod y broses arolygu, a'r broses o ddyfarnu graddau sy'n deillio o hynny, yn seiliedig ar safonau darparu gwasanaethau fel y'u nodir yn y rheoliadau ond o fewn cyd-destun penodol y gwasanaeth sy'n cael ei arolygu. Nid oes unrhyw ddau wasanaeth yn union yr un fath – bydd gan bob gwasanaeth wahanol bobl yn byw yno neu'n defnyddio'r gwasanaeth a gwahanol dimau o staff. Bydd hyn yn effeithio ar yr hyn y byddwn yn ei weld, yn ei glywed ac yn ei ddarllen. Felly, caiff gwasanaethau eu barnu o fewn eu cyd-destun unigol.

### Rhoi system graddau ar waith

6. O dan adran 37 o Ddeddf 2016, gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyfer graddau y gellir eu rhoi mewn perthynas ag ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth yn dilyn arolygiad. Daeth Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Graddau Arolygu) (Cymru) 2025 i rym ar 31 Mawrth 2025.

---

[1] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/2/contents/enacted/welsh
[2] https://arolygiaethgofal.cymru/ein-harolygiadau

## Gweithredu ar sail hawliau

7. Mae ein fframwaith graddau yn adlewyrchu ein hymrwymiad i hyrwyddo a chynnal hawliau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth. Mae hyn yn cynnwys hawliau'r bobl a nodir yn y fframweithiau cyfreithiol canlynol, ymhlith eraill:

- Deddf Hawliau Dynol 1998[3]
- Deddf Cydraddoldeb 2010[4]
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)[5]
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau[6]
- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005[7]
- Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)[8]
- Safonau'r Gymraeg[9]

8. Nodir rhagor o wybodaeth am ein hymrwymiad i gynnal hawliau dynol o fewn ein gwaith rheoleiddio ac arolygu ar ein gwefan[10]. Nodir rhagor o wybodaeth am ein dull arolygu sy'n seiliedig ar hawliau yn ein Cod Ymarfer ar gyfer Arolygu Gwasanaethau Rheoleiddiedig[11].

---

[3] https://www.equalityhumanrights.com/cy/human-rights/y-ddeddf-hawliau-dynol
[4] https://www.gov.uk/guidance/equality-act-2010-guidance
[5] www.gov.uk/government/publications/united-nations-convention-on-the-rights-of-the-child-uncrc-how-legislation-underpins-implementation-in-england
[6] https://www.equalityhumanrights.com/cy/ein-gwaith/our-human-rights-work/monitoring-and-promoting-un-treaties/confensiwn-y-cenhedloedd
[7] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2005/9/contents
[8] Caiff y rhain eu disodli gan y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid maes o law
[9] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/996/contents/made/welsh
[10] https://www.arolygiaethgofal.cymru/ein-harolygiadau
[11] Cod Ymarfer ar gyfer Arolygu Gwasanaethau Rheoleiddiedig (dogfen HTML) | Arolygiaeth Gofal Cymru

# Cymhwyso graddau

# Adran 1: Cymhwyso graddau

## Rhoi Sicrwydd

1. Mae dyletswydd reoleiddiol gennym i'w chyflawni er mwyn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd. Ein prif nod yw sicrhau bod darparwyr yn helpu pobl i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl ac yn eu cadw'n ddiogel.

2. Rydym yn gweithredu ar sail cryfderau yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[12] a byddwn yn cydnabod ansawdd. Lle bo angen, byddwn yn gweithredu er mwyn sicrhau gwelliant. Mae ein dull gweithredu wedi'i nodi yn ein polisi ar sicrhau gwelliant a gorfodi[13].

3. Mae llesiant yn ymwneud â phrofiadau bywyd pobl, eu canlyniadau ac i ba raddau y cânt eu cefnogi i'w cyflawni. Ystyrir pob thema arolygu o ran y graddau y mae canlyniadau llesiant pobl yn cael eu cyflawni, a yw'r gwasanaeth yn ddiogel ac a yw hawliau dynol y bobl yn cael eu parchu yn unol â'r rheoliadau perthnasol a'r canllawiau statudol cysylltiedig. Wrth wneud penderfyniad i ddyfarnu gradd ar gyfer pob thema arolygu, caiff yr holl dystiolaeth a gesglir yn ystod gweithgarwch arolygu ei hystyried.

## Cymhwyso graddau gan ddefnyddio disgrifyddion

4. Dyfernir gradd i bob thema arolygu. Nid ydym yn dyfarnu gradd gyffredinol i'r gwasanaeth cyfan.

5. Mae'r graddau fel a ganlyn:

   - Rhagorol
   - Da
   - Rhaid gwella
   - Rhaid gwella'n sylweddol

6. Mae Adran 2 yn cynnwys disgrifyddion manwl ar gyfer graddau pob thema arolygu er mwyn helpu pobl, arolygwyr, darparwyr, comisiynwyr a rhanddeiliaid eraill i ddeall ystyr graddau.

   Yn eu hanfod, mae'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf 2016 yn nodi nodweddion "da". Felly, rydym wedi mapio hyn ar draws pob un o'n themâu arolygu ac wedi datblygu disgrifyddion ychwanegol ar gyfer Rhagorol,

---

[12] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
[13] Polisi ar Sicrhau Gwelliant a Gorfodi (dogfen HTML) | Arolygiaeth Gofal Cymru

Rhaid gwella a Rhaid gwella'n sylweddol. Mae'r disgrifyddion hyn yn helpu arolygwyr i gymhwyso graddau cyson ac yn rhoi arweiniad i ddarparwyr ar yr hyn sy'n ein llywio o dan bob gradd. Mae'r disgrifyddion hefyd yn cynnig arweiniad i ddarparwyr gwasanaethau i'w helpu i wella'n barhaus.

7. Caiff yr holl dystiolaeth a gesglir yn ystod arolygiad ei hystyried wrth benderfynu pa radd y dylid ei dyfarnu. Mae'r disgrifyddion yn gweithredu fel enghreifftiau i lywio'r penderfyniadau hyn. Ni fydd pob enghraifft yn berthnasol i bob gwasanaeth, nid ymarfer ticio blychau ydyw. Byddwn yn ystyried pa ddisgrifyddion sydd fwyaf addas ar gyfer y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod arolygiad mewn perthynas â'r thema gyffredinol ac ar ôl ystyried ei heffaith ar ganlyniadau'r bobl. Er enghraifft, mae'n bosibl y byddwn yn gweld rhywfaint o ymarfer rhagorol ac y byddwn yn nodi hyn yn yr adroddiad, ond ni fydd hynny o reidrwydd yn arwain at radd rhagorol ar gyfer y thema gyfan.

8. Wrth ystyried dyfarnu **Rhagorol** neu **Rhaid gwella'n sylweddol** mewn unrhyw thema arolygu, caiff y dystiolaeth ategol ei hadolygu a'i thrafod â'r rheolwr tîm. Mae hyn yn annog proses ar gyfer her adeiladol ac yn helpu i sicrhau cysondeb wrth i ni gymhwyso'r graddau.

9. Os caiff methiannau eu nodi sy'n ei gwneud yn ofynnol i hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth gael ei gyhoeddi, h.y. mae canlyniadau gwael / risgiau sylweddol i lesiant y bobl, yna bydd yn rhaid dyfarnu gradd **Rhaid gwella'n sylweddol** i'r thema arolygu. Er mwyn penderfynu hyn, rydym yn ystyried y risg i'r bobl.

   Os byddwn yn nodi materion neu bryderon sy'n cael effaith ddibwys ar y bobl neu sy'n peri risg ddibwys iddynt, y gellir eu **datrys yn gyflym**, ac **nad ydynt yn debygol o ddigwydd eto**, cânt eu nodi yn y cofnod arolygu a'u trafod wrth roi adborth i'r darparwr. Ni fydd hyn yn effeithio ar y radd a ddyfernir ar gyfer y thema berthnasol ac ni chaiff ei gynnwys yn yr adroddiad.

### Y fframwaith gwneud penderfyniadau sicrhau gwelliant

10. Rydym yn defnyddio adnodd asesu risg i ategu ein proses ar gyfer gwneud penderfyniadau. Rydym yn asesu'r effaith ar lesiant y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu'r risg bosibl i'w llesiant gan ddefnyddio'r diffiniadau lefel risg canlynol[14]:

11. **Lefel yr effaith / risg i ganlyniadau'r bobl**

| Lefel yr effaith/risg | Diffiniad |
|---|---|
| **Dibwys** | • Lle mae pobl yn mwynhau canlyniadau llesiant da, ac mae'n annhebygol iawn y gallai'r materion y gwnaethom eu canfod effeithio ar ganlyniadau.<br>• Mae'r gwasanaeth a ddarperir yn ddiogel ar y cyfan |
| **Isel** | • Lle mae'r materion a nodwyd wedi arwain at effaith isel neu risg isel o niwed i ganlyniadau llesiant pobl. |
| **Cymedrol** | • Lle mae'r materion a nodwyd wedi arwain at effaith gymedrol neu risg gymedrol o niwed i ganlyniadau llesiant pobl, gan gynnwys torri eu hawliau. |
| **Uchel** | • Lle mae'r materion a nodwyd yn cynrychioli methiannau sylweddol sy'n arwain at effaith uchel/sylweddol[15] neu risg sylweddol o niwed i ganlyniadau llesiant pobl, gan gynnwys torri eu hawliau.<br>Neu<br>• anabledd parhaol.<br>Neu<br>• cyflwr iechyd andwyol sylweddol neu na ellir ei wrthdroi. |

[14] Polisi ar Sicrhau Gwelliant a Gorfodi (dogfen HTML) | Arolygiaeth Gofal Cymru
[15] Mae dogfen hawliau dynol AGC yn nodi'r gofal annerbyniol a fyddai'n cael effaith sylweddol ar lesiant pobl. Ein hymrwymiad i hybu a chynnal hawliau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant (arolygiaethgofal.cymru)

12. Rydym yn asesu'r tebygolrwydd y bydd y methiannau yn parhau neu'n digwydd eto yn y dyfodol yn seiliedig ar y diffiniadau canlynol[16]:

| Y tebygolrwydd y bydd yr effaith ar ganlyniadau'r bobl yn parhau neu'n digwydd eto | Diffiniad |
|---|---|
| **Annhebygol** | Mae'r ffactorau sy'n effeithio ar ganlyniadau'r bobl yn annhebygol o barhau neu ddigwydd eto oherwydd y rhesymau canlynol:<br>• bod mesurau wedi'u rhoi ar waith neu wrthi'n cael eu rhoi ar waith i ymdrin â'r materion a nodwyd a/neu i reoli'r effaith/risg yn llawn a/neu<br>• rydym yn hyderus bod gan y darparwr y gallu, yr adnoddau a'r ymrwymiad i sicrhau yr ymdrinnir â'r materion a nodwyd |
| **Tebygol** | Mae'r ffactorau sy'n effeithio ar ganlyniadau'r bobl yn debygol o barhau neu ddigwydd eto oherwydd y rhesymau canlynol:<br>• nid oes mesurau digonol nac effeithiol ar waith i reoli'r effaith / risg yn llawn neu i ymdrin â'r materion a nodwyd a/neu<br>• nid oes gan y darparwr y gallu, yr adnoddau nac ymrwymiad digonol i reoli'r effaith/risg a/neu i ymdrin â'r materion a nodwyd. |

[16] Polisi ar Sicrhau Gwelliant a Gorfodi (dogfen HTML) | Arolygiaeth Gofal Cymru

13. Rydym yn pennu'r camau gweithredu priodol mewn ymateb i'r risg a/neu'r effaith bosibl ar lesiant pobl yn deillio o dorri'r rheoliadau. I bennu ein hymateb lle caiff materion eu nodi, rydym yn defnyddio'r tabl canlynol [17]

| Y tebygolrwydd y bydd yn digwydd eto | Dibwys | Isel | Cymedrol | Uchel |
|---|---|---|---|---|
| **Tebygol** | **Ar gyfer gwasanaethau RISCA, trafod â'r darparwr wrth roi adborth a'i gofnodi yn adran adborth y nodiadau arolygu** | **Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth neu Maes i'w Wella (barn yr Arolygydd)** | **Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth** | **Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth** |
| **Annhebygol** | | **Maes i'w Wella** | **Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth neu Maes i'w Wella (barn yr Arolygydd)** | **Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth** |

**Lefel yr effaith/risg bosibl i ddefnyddwyr y gwasanaeth**

## Anawsterau wrth bennu gradd

14. Ar ôl gwerthuso'r dystiolaeth, os na fydd arolygwyr yn gallu gwneud penderfyniad ynghylch y radd i'w dyfarnu i thema, dylent gyfeirio'n ôl at y canllawiau hyn a'r polisi ar sicrhau gwelliant a gorfodi. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y caiff y dystiolaeth ei hailasesu'n gywir ac yn gyson. Er enghraifft, er mwyn cyflawni gradd **da** mewn perthynas â'r thema benodol, dylai gwasanaeth fod yn dangos ei fod yn helpu llawer o bobl i gyflawni eu canlyniadau llesiant. Os bydd angen rhagor o dystiolaeth i gadarnhau hyn, gall arolygwyr ofyn am wybodaeth ychwanegol gan ddarparwr y gwasanaeth i'w helpu i wneud penderfyniad terfynol.

15. Os byddwn yn tynnu sylw at agwedd ar thema arolygu sy'n faes i'w wella, byddwn yn gweithredu mewn ffordd gytbwys wrth benderfynu ar y radd ar gyfer y thema, drwy ystyried a ellir datgan bod agweddau eraill y thema yn dda. Mae hyn yn golygu y gellir rhoi gradd **da** i'r thema gyfan o hyd, hyd yn oed os byddwn wedi tynnu sylw at faes i'w wella. Caiff hyn hefyd ei adlewyrchu yn yr adroddiad.

## Adborth yn dilyn arolygiad

16. Mae rhoi adborth yn rhan hanfodol o arolygiad, gan helpu gwasanaethau i wella'n barhaus. Bydd yr adborth wedi'i drefnu ar sail y themâu arolygu. Mae'n gyfle pwysig i roi trosolwg o'r canfyddiadau i'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol ac i

[17] Polisi ar Sicrhau Gwelliant a Gorfodi (dogfen HTML) | Arolygiaeth Gofal Cymru

archwilio a phrofi'r dystiolaeth y byddwn o bosibl yn dibynnu arni i ddyfarnu graddau.

17. Gall fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr gwasanaethau ystyried pa radd y byddent yn ei rhoi iddynt eu hunain ar ddechrau'r broses arolygu, ac i fyfyrio ar yr hunanasesiad hwnnw wrth gael adborth.

18. Dylid rhoi adborth cychwynnol drwy gydol yr ymweliad arolygu a rhoi crynodeb ohono ar ddiwedd yr ymweliad i'r unigolion hynny sy'n gyfrifol am y gwasanaeth ar y diwrnod; bydd hyn yn cynnwys y graddau arfaethedig ar gyfer pob thema. Mae hyn yn cynnig cyfle i'r rheolwr a / neu'r Unigolyn Cyfrifol ddarparu unrhyw dystiolaeth na chafodd o bosibl ei hystyried yn eu barn nhw.

19. Wrth roi adborth cychwynnol, dylem hysbysu'r darparwr am unrhyw feysydd o ymarfer da, yn ogystal ag achosion lle na chaiff y canlyniadau i'r bobl eu cyflawni neu lle ceir risgiau posibl.

20. Os na fydd gwasanaeth wedi cyrraedd y safonau fel y'u nodir yn y rheoliadau a'n bod yn bwriadu cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth neu gymryd camau gorfodi eraill, byddwn yn hysbysu'r darparwr yn glir.

21. Efallai y bydd angen i ni gwblhau dadansoddiad manylach o'r wybodaeth a gasglwyd a'n bod o bosibl yn aros am ragor o wybodaeth cyn dod i unrhyw gasgliadau neu wneud penderfyniad terfynol am y radd ar gyfer pob thema. Os bydd y radd arfaethedig yn newid ar ôl rhoi'r adborth cychwynnol yn sgil ystyried tystiolaeth bellach, bydd yr arolygydd yn rhoi gwybod i'r Unigolyn Cyfrifol yn ystod y cyfarfod adborth ffurfiol a chyn drafftio'r adroddiad. Byddwn yn rhoi rhesymau clir dros unrhyw newid.

22. Caiff adborth ffurfiol ei roi i'r Unigolyn Cyfrifol ar amser sy'n gyfleus i'r ddwy ochr ar ôl cwblhau'r holl weithgarwch arolygu.

### Cyflwyno adroddiadau

23. Caiff adroddiadau arolygu eu drafftio'n unol â chanllawiau ymarfer AGC ar ysgrifennu adroddiadau. Bydd yr arolygydd yn sicrhau bod cynnwys yr adroddiad yn adlewyrchu'r radd arfaethedig. Dylai gyfleu'n glir i'r cyhoedd a ydym yn dyfarnu gradd Rhagorol, Da, Rhaid gwella neu Rhaid gwella'n sylweddol i thema arolygu.

Byddwn yn defnyddio geiriau gwerthusol yn yr adroddiad er mwyn helpu i gysylltu'r naratif â'r radd. Nodir rhai geiriau gwerthusol a awgrymir[18] yn y tabl canlynol:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gydag eithriadau prin, rhagorol, neilltuol, cryf iawn, eithriadol, anhygoel, canmoladwy, uchel, safon uchel iawn, ansawdd uchel iawn, helaeth, effeithiol iawn, creadigol iawn, cynhwysfawr, sylweddol, manwl. |
| **Da** | Llawer o bobl, llwyddiannus, cryf, diogel, gwerthfawr, cadarnhaol, trylwyr, defnyddiol, pwrpasol, wedi'i ddefnyddio'n dda, cyson, da, perthnasol, parhaus, effeithiol. |
| **Rhaid Gwella** | Ddim bob amser, anfoddhaol, cyfyngedig, anghyson, yn methu â chyrraedd y safon, anaddas, annibynadwy, ddim yn gadarn, angen ei atgyfnerthu. |
| **Rhaid gwella'n sylweddol** | Anaml, annigonol, llesteirio, aneffeithlon, aneffeithiol, analluog, gwan, gwael, ddim yn addas at y diben, cyfyngedig, yn wynebu risg, annigonol, diffygion sylweddol, diffygiol. |

24. Mae pob adroddiad arolygu yn destun proses adolygu gan gymheiriaid, a chaiff adroddiadau eu samplu ar hap fel rhan o fframwaith sicrhau ansawdd mewnol AGC.

### Sut gall darparwyr ymateb i adroddiad arolygu?

25. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein hadroddiadau yn deg a bod ein canfyddiadau a'n barn yn seiliedig ar y gwaith o driongli'r dystiolaeth a gesglir gennym cyn, yn ystod ac ar ôl yr ymweliad arolygu.

26. Er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder, rydym yn derbyn bod hawl gan yr Unigolion Cyfrifol neu'r personau perthnasol i ofyn am adolygiad o'n hadroddiadau pan fyddant o'r farn eu bod yn cynnwys anghywirdebau ffeithiol neu'n seiliedig ar dystiolaeth anghyflawn. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i ni gywiro unrhyw wallau ac ystyried gwybodaeth ychwanegol cyn i adroddiad arolygu gael ei ryddhau'n gyhoeddus. Nodir hyn yn ein polisi ar gyfer Ymateb i Adroddiadau Arolygu[19].

---

[18] Daw'r geiriau gwerthusol o Ganllaw Arddull Ysgrifennu Adroddiadau Arolygiadau ar y Cyd AGC / ESTYN, gyda rhai geiriau ychwanegol ar gyfer y canllawiau hyn dim ond er mwyn adlewyrchu'r graddau a ddyfernir wrth arolygu Gwasanaethau Oedolion a Phlant.

[19] https://www.arolygiaethgofal.cymru/polisi-ar-gyfer-ymateb-i-adroddiadau-arolygu-html

27. O dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, gall darparwr gwasanaeth cofrestredig apelio yn erbyn graddau arolygu a ddyfarnwyd ar y sail eu bod yn seiliedig ar anghywirdeb ffeithiol neu dystiolaeth anghyflawn fel y nodir yn ein polisi.

## Cofnodi ac arddangos graddau

28. Byddwn yn cyhoeddi'r graddau ar gyfer pob thema yn ein hadroddiadau ac ar-lein drwy ein cyfeiriadur gwasanaethau.

29. Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau arddangos o leiaf un arwydd ym mhob man y mae'n darparu gwasanaeth yn dangos y radd arolygu ddiweddaraf ar gyfer y gwasanaeth. Nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol i gartrefi gofal i blant o dan 18 oed nac i gartrefi gofal i bedwar unigolyn neu lai. Byddwn yn rhoi poster i bob gwasanaeth ar ôl cyhoeddi ei adroddiad arolygu.

30. Rhaid i wasanaethau cymorth cartref arddangos eu graddau yn y swyddfa y caiff y gwasanaeth ei ddarparu ohoni, oni bai ei bod yn anhygyrch i aelodau o'r cyhoedd neu fod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu o gartref rhywun.

31. Rhaid i bob darparwr gwasanaeth ddangos ei radd arolygu ddiweddaraf ar gyfer pob gwasanaeth ar bob gwefan hefyd. Byddwn yn darparu teclyn (*widget*) drwy eu cyfrifon AGC Ar-lein i alluogi darparwyr i wneud hyn.

32. Ceir rhagor o fanylion am arddangos graddau yn ein canllaw arddangos graddau.

## Sicrhau gwelliannau

33. Rydym yn dilyn ein polisi ar sicrhau gwelliant a gorfodi. Pan fyddwn yn cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth, trefnir arolygiad â blaenoriaeth o'r gwasanaeth **o fewn chwe mis** i ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth.

34. Yn dilyn yr arolygiad hwn, byddwn yn ystyried a yw'r canlyniadau i'r bobl wedi gwella. Os bydd yr arolygydd yn penderfynu bod angen gwella'r canlyniadau yn sylweddol o hyd neu fod risgiau i'r bobl, bydd angen i'r arolygydd gadarnhau a yw'r rhain yn ymwneud â'r un meysydd ymarfer a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu a ydynt yn dangos diffygion mewn maes ymarfer newydd. Os bu newid yn y canlyniadau i'r bobl ers yr arolygiad blaenorol, byddwn yn ailystyried y radd a ddyfarnwyd i'r thema arolygu berthnasol.

# Llinellau Ymholi a disgrifyddion graddau

## Adran 2: Llinellau ymholi a disgrifyddion graddau

35. Drwy gyrraedd y safonau fel y'u nodir yn y Rheoliadau, dylai gwasanaethau fodloni'r gofynion ar gyfer gradd Da; mae'r disgrifyddion ar gyfer rhagorol yn gam i fyny o Da.

36. Nod y fframwaith hwn yw helpu aelodau o'r cyhoedd, arolygwyr, darparwyr a chomisiynwyr i ddeall beth rydym yn disgwyl ei weld yn ystod arolygiad. Mae hyn yn llywio ein proses ar gyfer gwneud penderfyniadau er mwyn dyfarnu graddau. Mae'r disgrifyddion graddau wedi'u trefnu'n unol â llinellau ymholi eang sy'n ymdrin â'r safonau perthnasol fel y'u nodir yn y rheoliadau o dan ein pedair thema arolygu, sef Llesiant, Gofal a Chymorth, yr Amgylchedd, ac Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Rhaid defnyddio'r fframwaith hwn ochr yn ochr â'r Polisi ar Sicrhau Gwelliant a Gorfodi, Gwneud cais am adolygiad o dystiolaeth a chanfyddiadau adroddiadau arolygu (gan gynnwys graddau), y Cod Ymarfer ar gyfer Arolygu Gwasanaethau Rheoleiddiedig, a Chanllawiau Statudol Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

37. **Mae Datganiad o Ddiben[20] darparwr y gwasanaeth yn ddogfen allweddol.** Mae'n nodi'r weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth a dyheadau'r darparwr o ran diwallu anghenion y bobl mae'n rhoi cymorth iddynt. Rhaid i'r wybodaeth yn y datganiad o ddiben fod yn gywir ac yn gyfredol, a dylai bob amser adlewyrchu'r amrywiaeth o anghenion y gall gwasanaeth eu diwallu, gan gynnwys unrhyw wasanaethau arbenigol. Byddwn yn ystyried a yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r datganiad o ddiben yn ystod pob arolygiad.

**Pan fyddwn yn cyfeirio at bobl yn y fframwaith, rydym yn cynnwys plant, pobl ifanc, ac oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau gofal cartref. Rydym hefyd yn cyfeirio at gynrychiolwyr pobl lle bo'n briodol, a allai gynnwys aelodau o'u teulu neu eiriolwyr sy'n gweithredu ar eu rhan. Mae hyn yn arbennig o berthnasol lle na fydd gan bobl o bosibl y gallu meddyliol i wneud penderfyniadau penodol.**

**Pan fyddwn yn cyfeirio at staff rydym yn golygu gweithwyr gofal, nyrsys, staff cymorth a rheolwyr; pan fyddwn yn sôn am arweinwyr rydym yn golygu unigolion cyfrifol a rheolwyr cofrestredig.**

[20] Canllawiau ar gyfer llunio datganiad o ddiben - Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dogfen HTML) | Arolygiaeth Gofal Cymru

## Llinellau Ymholi

| LlY | Llesiant | Tudalennau |
|---|---|---|
| 1 | **Mae'r bobl yn byw yn iach ac yn ddiogel ac mae ganddynt reolaeth dros eu bywydau**, wedi'u cefnogi gan brosesau cadarnhaol ar gyfer rheoli risg. Mae gwybodaeth ar gael iddynt sy'n meithrin dewis ac annibyniaeth, a chânt gymorth ar gyfer gweithgareddau ystyrlon, anghenion cyfathrebu ac anghenion iechyd er mwyn cyflawni eu dyheadau a'u canlyniadau personol. | 20 – 25 |
| 2 | **Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod** ac yn cael gwybod sut i godi pryderon mewn ffordd sy'n addas ar gyfer eu hanghenion cyfathrebu. | 26 – 27 |
| 3 | **Mae'r bobl yn cael cymorth i feithrin cydberthnasau diogel ac iach** gan gynnwys ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon â'u cymuned, teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a datblygu i'w llawn botensial, gan gynnwys mynediad at addysg, a hynny gan wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Mae hyn yn cynnwys cynnal llesiant ariannol ac annibyniaeth a chael gofal yn Gymraeg os byddant am gael hynny. | 28 – 30 |
| 4 | **Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n cefnogi eu canlyniadau llesiant.** | 31 - 32 |
| **LlY** | **Gofal a chymorth** | |
| 5 | **Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o'r ansawdd sydd ei angen arnynt i gyflawni eu canlyniadau personol** - caiff y gofal ei gynllunio drwy ymgynghori â'r bobl, gan ystyried eu dymuniadau, eu dyheadau, risgiau, ac anghenion arbenigol. Mae'r bobl yn cael parhad gofal, ac mae'r staff yn ymgynghori â'r asiantaethau a'r arbenigwyr perthnasol fel y bo angen. Darperir gofal a chymorth yn yr iaith a'r dull cyfathrebu sy'n diwallu anghenion y bobl orau. | 34 – 38 |
| 6 | **Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth.** | 39 – 40 |
| 7 | **Caiff meddyginiaeth y bobl ei rheoli'n ddiogel.** | 41 – 42 |
| 8 | **Caiff y risg y bydd y bobl yn cael haint ei lleihau** drwy ymdrechion gan ddarparwr y gwasanaeth i hyrwyddo arferion hylendid da, ac i sicrhau bod cyflenwadau digonol ar gael i ddiwallu anghenion y bobl. | 43 – 44 |

| LlY | Yr Amgylchedd | Tudalennau |
|---|---|---|
| 9 | **Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd â chyfleusterau a chyfarpar priodol a gaiff eu cynnal a'u cadw'n dda** i'w helpu i gyflawni eu canlyniadau llesiant gan nodi, lliniaru a lleihau risgiau iechyd a diogelwch ar yr un pryd. | 46 – 50 |
| **LlY** | **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | |
| 10 | **Caiff y bobl gymorth i gyflawni eu canlyniadau gan fod darparwr y gwasanaeth wedi rhoi trefniadau sefydliadol, trefniadau llywodraethu a threfniadau goruchwylio effeithiol ar waith i sicrhau gweithrediadau hwylus a gofal o ansawdd uchel.** Mae hyn yn cynnwys gwiriadau ansawdd a phrosesau sicrwydd effeithiol sy'n ysgogi gwelliannau parhaus i'r gwasanaeth, meithrin tryloywder, casglu adborth ac ymateb iddo, helpu'r staff i godi pryderon ac i ddilyn prosesau chwythu'r chwiban, ymdrin â chwynion yn effeithiol, a dysgu ohonynt er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarperir. Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod y bobl, comisiynwyr gofal, cyrff rheoleiddio, asiantaethau a gweithwyr proffesiynol yn cael gwybodaeth gywir a hygyrch am y gwasanaeth a'r ffordd y caiff ei ddarparu. | 52 – 58 |
| 11 | **Mae'r bobl yn cael cymorth gan staff sy'n meddu ar yr arbenigedd, y sgiliau a'r cymwysterau angenrheidiol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl.** Mae darparwr y gwasanaeth yn cynnal nifer priodol o staff gwybodus a chymwys wedi'u fetio, ac yn eu defnyddio mewn ffordd effeithiol yn y gwasanaeth. Mae'r darparwr yn sicrhau bod cyfleoedd dysgu a datblygu parhaus ar gael i'r staff. | 59 – 61 |
| 12 | **Ar gyfer gwasanaethau cymorth cartref yn unig – Mae'r bobl yn cael cymorth gan staff sydd â digon o amser i ddarparu gofal, ac sy'n cael dewis o ran eu trefniadau cytundebol.** | 62 - 63 |

# Thema arolygu: Llesiant

**Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld:**

Mae ein dull arolygu yn ystyried egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (“Deddf 2014”)[21] a'r diffiniad cyfreithiol o “lesiant”.

Prif ffocws arolygu yw ystyried y canlyniadau llesiant cenedlaethol ac i ba raddau y mae pobl yn byw'n dda ac yn cyflawni eu canlyniadau llesiant. Mae'r fframwaith graddau arolygu yn helpu arolygwyr a darparwyr i weld pa mor dda y mae gwasanaeth yn helpu pobl i gyflawni eu canlyniadau. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn ystyried llesiant pobl o dan yr wyth agwedd benodol ar fywyd pob dydd person fel y'u diffinnir yn Adran 2 o Ddeddf 2014[22]:

- Iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol
- Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- Addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden
- Cydberthnasau domestig, teuluol a phersonol
- Cyfraniad a wneir at y gymdeithas
- Sicrhau hawliau a hawlogaethau
- Llesiant cymdeithasol ac economaidd
- Addasrwydd llety preswyl

Mewn perthynas â phlant, rydym hefyd yn ystyried eu datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol, a'u “lles” fel y dehonglir y gair hwnnw at ddibenion Deddf Plant 1989. Mewn perthynas ag oedolion, rydym hefyd yn ystyried eu rheolaeth dros eu bywyd o ddydd i ddydd, ac a ydynt yn gweithio.

---

[21] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
[22] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Llinell ymholi 1: Mae'r bobl yn byw yn iach ac yn ddiogel ac mae ganddynt reolaeth dros eu bywydau,** wedi'u cefnogi gan brosesau cadarnhaol ar gyfer rheoli risg. Mae gwybodaeth ar gael iddynt sy'n meithrin dewis ac annibyniaeth, a chânt gymorth ar gyfer gweithgareddau ystyrlon, anghenion cyfathrebu ac anghenion iechyd er mwyn cyflawni eu dyheadau a'u canlyniadau personol.

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| Gydag eithriadau prin, caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Maent yn cael cymorth gweithredol i nodi eu canlyniadau llesiant ac yn cael eu hannog i ddefnyddio eu cryfderau ac i adeiladu arnynt. | Caiff llawer o'r bobl eu trin ag urddas a pharch. Maent yn cael cymorth i nodi eu canlyniadau llesiant ac yn cael eu hannog i ddefnyddio eu cryfderau ac i adeiladu arnynt. | Nid yw'r bobl bob amser yn cael eu trin ag urddas a pharch nac yn cael cymorth i nodi eu canlyniadau llesiant ac i adeiladu ar eu cryfderau. | Anaml y caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Nid ydynt yn cael cymorth i nodi eu canlyniadau llesiant nac yn cael eu hannog i ddefnyddio eu cryfderau ac i adeiladu arnynt. |
| Gydag eithriadau prin, mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gael cymaint o reolaeth â phosibl dros eu bywydau o ddydd i ddydd ac yn cael cymorth helaeth i ddeall eu hawliau a'u hawlogaethau cymaint ag y gallant. Caiff y bobl eu cynnwys yn weithredol yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, gan sicrhau y caiff eu lleisiau eu parchu ac y gweithredir arnynt.<br><br>Ceir ymrwymiad neilltuol a chlir gan bob arweinydd a phob aelod o'r staff i wrando'n astud, darparu gwybodaeth gynhwysfawr mewn | Mae gan lawer o'r bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd ac maent yn ymwybodol o'u hawliau a'u hawlogaethau. Cânt eu cynnwys yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, gan sicrhau y caiff eu lleisiau eu clywed yn gyson a'u parchu.<br><br>Dangosir ymarfer cadarnhaol drwy wrando'n astud, darparu gwybodaeth glir, a helpu'r bobl yn effeithiol i wneud dewisiadau gwybodus. Mae'r dull cadarn hwn yn helpu llawer o'r bobl i gymryd cyfrifoldeb dros eu bywydau mewn ffordd hyderus a sicr. | Efallai na fydd y bobl bob amser yn ei chael hi'n hawdd rhannu eu safbwyntiau, gan gynnwys drwy gyfarfodydd, adolygiadau neu gyfleoedd eirioli. Weithiau mae'r bobl yn cyflawni'r canlyniadau maent yn eu nodi iddyn nhw eu hunain. | Anaml y caiff lleisiau'r bobl eu clywed, a / neu anaml y caiff eu dewisiadau eu parchu neu eu hannog. Anaml y mae'r bobl yn cyflawni canlyniadau llesiant personol. |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| fformat y mae'r bobl yn ei ddeall, a helpu'r bobl i wneud dewisiadau hynod wybodus. Mae'r dull hynod effeithiol hwn yn grymuso'r bobl i gymryd cyfrifoldeb dros eu bywydau mewn ffordd hyderus a sicr. | | | |
| Mae darparwr y gwasanaeth yn pwysleisio annibyniaeth a dewis drwy ddulliau rheoli risg rhagweithiol gan bob aelod o'r staff.<br><br>Mae'r staff yn meddu ar y sgiliau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i gynorthwyo'r bobl yn gyson i arfer eu hawliau, gan helpu'r bobl i wneud penderfyniadau uchelgeisiol.<br><br>Mae'r staff yn gweithio mewn partneriaeth agos â rhanddeiliaid allanol i ymdrin ag unrhyw fylchau o ran gwybodaeth, gwasanaethau eirioli a chymorth i'r bobl. | Caiff hawl y bobl i wneud eu dewisiadau eu hunain ac i gymryd risgiau personol gwybodus ei hyrwyddo gan y diwylliant cadarnhaol yn y gwasanaeth. Caiff hyn ei adlewyrchu yng nghynlluniau personol y bobl.<br><br>Rhoddir blaenoriaeth i lesiant a diogelwch y bobl drwy nodi risgiau posibl a'u rheoli.<br><br>Caiff y bobl gynnig dewisiadau o ran eu gweithgareddau dyddiol a chânt gyfleoedd i gyflawni eu potensial ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon, fel dewis prydau, cymryd rhan mewn addysg, ymgysylltu â hobïau, ymuno â gweithgareddau cymunedol a gwirfoddoli. | Nid yw'r bobl bob amser yn cael cymorth i fod mor annibynnol â phosibl ac i wneud cymaint o ddewisiadau â phosibl.<br><br>Nid yw'r staff bob amser yn gallu disgrifio pa gamau gweithredu y mae'n rhaid iddynt eu cymryd i gefnogi annibyniaeth y bobl ac i reoli risgiau i'w llesiant.<br><br>Ni chaiff asesiadau risg bob amser eu hadolygu na'u diweddaru pan fydd newidiadau i anghenion y bobl a'r risgiau hysbys iddynt neu nid ydynt yn cynnwys digon o fanylion. | Ni chaiff annibyniaeth y bobl ei hyrwyddo i'r eithaf oherwydd arferion sy'n osgoi risg, gan gynnwys arferion rhy gyfyngol sy'n cefnogi gallu'r gwasanaeth i redeg yn hwylus yn hytrach na chefnogi dewis ac annibyniaeth y bobl.<br><br>Nid yw'r camau gweithredu y mae'n rhaid i'r staff eu cymryd i leihau risg wedi'u nodi'n glir yng nghynlluniau'r bobl neu ni chânt eu dilyn.<br><br>Mae'r cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau ystyrlon yn gyfyngedig iawn, gyda'r dewisiadau wedi'u cyfyngu gan dybiaethau a wneir gan y staff |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| Caiff y cyfrifoldeb hwn ei gymhwyso'n gyson gan bob aelod o'r staff.<br><br>Mae'r staff yn cynnig help ychwanegol wrth wneud penderfyniadau bob dydd, a hynny mewn ffordd sylwgar sy'n dangos empathi a chan ddefnyddio dewis ddulliau cyfathrebu'r bobl. | | | ynghylch yr hyn sy'n ddiogel neu'n ymarferol i'r bobl.<br><br>Nid yw'r staff yn gwrando ar y bobl yn gyson ac ni chânt gymorth i fynegi eu safbwyntiau. Nid yw'r staff yn defnyddio dulliau cyfathrebu hygyrch nac yn gwneud yn siŵr bod y bobl wedi eu deall. |
| Gydag eithriadau prin, mae gwybodaeth wedi'i theilwra'n sylweddol ar gael i'r bobl sydd wedi'i phersonoli i ddiwallu eu hanghenion cyfathrebu. Mae cymorth helaeth ar gael i'r bobl er mwyn iddynt ddeall y wybodaeth gan gynnwys eiriolaeth annibynnol lle bo'i hangen. Cyflawnir hyn drwy amrywiaeth o ddulliau fel llyfrynnau, pyrth ar-lein ac ymgyngoriadau uniongyrchol, mewn ffordd sy'n diwallu anghenion cyfathrebu'r bobl. | Mae'r wybodaeth gywir ar gael i lawer o'r bobl ar yr adeg gywir ac mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion cyfathrebu. Mae hyn yn golygu darparu gwybodaeth glir, gryno a pherthnasol, a chyfleoedd eirioli lle bo'u hangen. | Mae gwybodaeth ar gael i'r bobl, ond nid yw bob amser yn cael ei rhoi ar yr adeg gywir, gan ddefnyddio eu dewis arddull gyfathrebu, nac yn cynnwys cymorth eirioli pan fo'i angen. Mae hyn yn peri risg i allu'r bobl i reoli eu llesiant a'i wella. Mae'n golygu nad yw'r wybodaeth a gânt yn llwyddo i ddiwallu eu hanghenion. | Anaml y mae'r wybodaeth gywir ar gael i'r bobl ar yr adeg gywir ac yn eu dewis ddull. Mae hyn yn llesteirio eu gallu i reoli eu llesiant a'i wella. Mae'r wybodaeth yn aml yn aneglur, yn hir ac yn amherthnasol, yn cael ei darparu drwy sianeli cyfyngedig fel llyfrynnau sydd wedi dyddio, pyrth ar-lein anhygyrch ac ymgyngoriadau nad ydynt yn cael eu cynnal yn rheolaidd, gan fethu â diwallu anghenion cyfathrebu'r bobl. Nid oes gwasanaethau eirioli ar gael iddynt i'w cefnogi. |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| Caiff y bobl eu cynnwys wrth lunio gwybodaeth iddyn nhw eu hunain ac i'w cymheiriaid lle y bo'n bosibl. | | | |
| Mae darparwr y gwasanaeth yn hyrwyddo'r defnydd o arferion ac adnoddau creadigol, wedi'u hategu gan y gwaith ymchwil diweddaraf a chanllawiau arferion gorau, er mwyn diwallu anghenion cyfathrebu'r bobl.<br><br>Cyflawnir hyn gan ddefnyddio dewis ieithoedd a dulliau cyfathrebu'r bobl, gan gynnwys, er enghraifft, dulliau arbenigol fel PECS, TEACCH, Makaton neu Iaith Arwyddion Prydain (BSL).<br><br>Gydag eithriadau prin, mae llesiant y bobl yn rhagorol gan fod ymdrechion i hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn cael eu hintegreiddio'n llawn i ddiwylliant y gwasanaeth. | Caiff anghenion cyfathrebu eu diwallu'n addas er mwyn sicrhau y gall y bobl a'r staff ddeall ei gilydd. Mae hyn hefyd yn cynnwys sicrhau y caiff dewisiadau iaith y bobl eu bodloni.<br><br>Mae llesiant llawer o'r bobl yn well gan fod eu hanghenion o ran y Gymraeg a diwylliant Cymru yn cael eu deall a'u diwallu.<br><br>Mae darparwr y gwasanaeth yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio, o ran y Gymraeg a diwylliant Cymru, neu mae'n gweithio'n benodol tuag at wneud hynny. | Mae pobl ag anghenion cyfathrebu amrywiol yn aml yn wynebu heriau gan y bydd aelodau o staff o bosibl yn ei chael hi'n anodd eu deall a'u cefnogi neu na fyddant wedi cael yr adnoddau a'r hyfforddiant angenrheidiol i ymateb yn effeithiol.<br><br>Nid yw'r darparwr bob amser yn ystyried dewisiadau ieithyddol a diwylliannol y bobl. Mae ei ymdrechion i hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn anghyson ac mae angen eu hatgyfnerthu. | Nid yw'r staff yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion cyfathrebu'r bobl.<br>Ni roddir digon o ystyriaeth ac ni wneir digon o ymdrech i fodloni dewisiadau cyfathrebu ac iaith y bobl.<br><br>Ceir dealltwriaeth gyfyngedig ymhlith arweinwyr am eu cyfrifoldebau dros hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Ar hyn o bryd, nid oes pwyslais sylweddol ar hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Caiff y bobl gymorth helaeth i fyw'n dda ac i gyflawni canlyniadau hunangyfeiriedig. | Caiff y bobl gymorth i gynnal eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl, a'u llesiant emosiynol. | Nid yw'r bobl bob amser yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i gynnal eu hiechyd corfforol, eu | Ni chaiff y bobl ddigon o gymorth i gynnal eu hiechyd corfforol, eu |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| Mae'r bobl yn cynnal ac yn gwella eu hiechyd corfforol, eu hiechyd meddwl a'u hiechyd emosiynol o ganlyniad i'r cymorth eithriadol y maent yn ei gael gan y staff.<br><br>Caiff y bobl eu grymuso i wneud dewisiadau am eu hiechyd a sut y dylid ei fonitro a'i reoli.<br><br>Lle y gallant, mae'r bobl yn cynllunio, yn cydgynhyrchu ac yn arwain wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis, gyda chymorth ardderchog gan y staff. Mae'r rhaglenni gweithgareddau hyn sydd wedi'u cynllunio'n dda yn cefnogi ac yn annog y bobl i gymryd rhan, gan wella eu hymdeimlad o lesiant yn sylweddol.<br><br>Caiff y bobl gynnig profiadau sy'n cyfoethogi eu bywydau mewn ffyrdd newydd neu greadigol. Gall hyn gynnwys digwyddiadau cymunedol sy'n meithrin cysylltiadau cymdeithasol, | Caiff y bobl gymorth da i ymgysylltu ac i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n meithrin hapusrwydd ac iechyd.<br><br>Mae gweithgareddau wedi'u cynllunio ac enghreifftiau o ryngweithio digymell â'r staff ac eraill yn helpu i sicrhau bod unigolion yn cynnal ymdeimlad cadarnhaol o lesiant personol.<br><br>Caiff y bobl brofiadau cadarnhaol, sy'n gwella ansawdd eu bywyd ac yn eu helpu i gyflawni eu canlyniadau llesiant. | hiechyd meddwl a'u hiechyd emosiynol<br><br>Nid oes gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu hanghenion iechyd, lle bo hyn yn bosibl, bob amser.<br><br>Nid yw'r bobl yn treulio eu hamser yn rhyngweithio ag eraill nac yn gwneud gweithgareddau o'u dewis bob amser.<br><br>Mae'r gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol lle gall y bobl ymgysylltu ag eraill, a mynegi eu hunain, er mwyn cefnogi ymdeimlad o lesiant, yn gyfyngedig.<br><br>Caiff rhai pobl brofiadau cadarnhaol, ond pan gânt brofiadau negyddol, ni chaiff y rhain bob amser eu cydnabod gan y darparwr neu nid ymdrinnir â nhw gan y darparwr bob amser. | hiechyd meddwl a'u hiechyd emosiynol.<br>Anaml y caiff y bobl wybodaeth am eu hiechyd a'u hopsiynau triniaeth ac ni chânt eu cynnwys yn y penderfyniadau a wneir am eu gofal iechyd eu hunain.<br><br>Anaml y mae'r bobl yn ymgysylltu ag eraill, neu'n gwneud hynny drwy weithgareddau. Nid yw diwylliant y gwasanaeth yn hwyluso nac yn annog cyfleoedd i'r bobl ymgysylltu. Nid yw'r staff yn gwneud ymdrechion i gynllunio gweithgareddau na digwyddiadau sy'n cyfrannu at lesiant y bobl.<br><br>Nid oes profiadau sy'n cyfoethogi bywydau'r bobl ar gael iddynt. Nid oes digwyddiadau cymunedol sy'n meithrin cysylltiadau cymdeithasol, gweithdai i wella sgiliau personol na hobïau. Ni chaiff cyfleoedd ar gyfer dysgu, rhyngweithio cymdeithasol a thwf personol eu darparu, gan |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| gweithdai i wella sgiliau personol a hobïau. Drwy greu cyfleoedd ar gyfer dysgu, rhyngweithio cymdeithasol a thwf personol, mae darparwyr gwasanaethau yn sicrhau y gall pob unigolyn fwynhau bywyd bodlon a boddhaus. | | | amddifadu'r unigolion o fywyd bodlon a boddhaus. |
| Mae'r bobl yn rhan o ddiwylliant cryf a pharhaus o fod yn agored heb gael eich barnu. Caiff llesiant emosiynol a seicolegol y bobl ei gefnogi a'i wella mewn ffordd weithredol. | Caiff llesiant emosiynol a seicolegol y bobl ei gefnogi, gan gynnwys sut i reoli straen o ddydd i ddydd. Mae darparwr y gwasanaeth yn meithrin diwylliant o fod yn agored heb gael eich barnu. | Mae sbardunau straen y bobl yn hysbys ac yn cael eu cofnodi ond nid yw'r strategaethau i gefnogi'r bobl pan fyddant dan straen yn ddigonol, neu nid yw'r staff bob amser yn eu dilyn neu'n eu deall, gan arwain at risgiau i lesiant y bobl. | Ni chaiff sbardunau straen hysbys y bobl eu cydnabod ac nid ymdrinnir â nhw, gan arwain at ganlyniadau llesiant gwael.<br><br>Nid oes gan y gwasanaeth ddiwylliant parhaus o fod yn agored wrth gefnogi llesiant emosiynol a seicolegol y bobl, ac ar adegau, gall fod yn feirniadol. |
| **Ar gyfer gwasanaethau plant yn unig:**<br>Mae gofal eithriadol yn integreiddio pob dimensiwn o ddatblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol plant. Mae'r dull gweithredu cynhwysfawr hwn yn sicrhau eu bod yn ffynnu mewn amgylchedd magwrus wedi'i | **Ar gyfer gwasanaethau plant yn unig:**<br>Mae'r plant yn dysgu sut i ryngweithio ag eraill gan gynnwys gwneud ffrindiau, rhannu a chydweithredu. Mae'n ymwneud â meithrin cydberthnasau a deall normau cymdeithasol. | **Ar gyfer gwasanaethau plant yn unig:**<br>Ni chaiff y plant gymorth a gwybodaeth gyson i'w helpu i feithrin cydberthnasau a deall normau cymdeithasol. | **Ar gyfer gwasanaethau plant yn unig:**<br>Ni chaiff y plant gymorth i feithrin cydberthnasau a deall normau cymdeithasol.<br><br>Gallai hyn arwain at sefyllfa lle na fydd y plant yn cyrraedd eu llawn botensial ac y byddant yn cyflawni canlyniadau gwael. |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| deilwra at eu hanghenion unigryw. | Lle nad yw'r plant yn ymgymryd ag addysg, cynigir cymorth a chyngor iddynt. Caiff dull cadarnhaol ei hyrwyddo yn y cartref mewn perthynas ag addysg, er mwyn sicrhau bod y plant yn cyflawni o safbwynt addysgol. | | |

**Llinell ymholi 2: Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod** ac yn cael gwybod sut i godi pryderon mewn ffordd sy'n addas ar gyfer eu hanghenion cyfathrebu.

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| Caiff dulliau gweithredu newydd hyblyg a hynod greadigol eu datblygu gyda'r bobl er mwyn atal achosion o gam-drin a chanfod problemau yn gynnar, yn enwedig i'r rhai hynny nad oes ganddynt lais. Mae'r dulliau diogelu hynod effeithiol hyn yn cynnwys ymdrech gydweithredol rhwng pobl ac asiantaethau allanol.<br><br>Mae system cymorth gadarn iawn yn sicrhau y caiff unrhyw risgiau eu nodi ac yr ymdrinnir â nhw'n brydlon.<br><br>Anogir y bobl i fynegi eu pryderon a'u dewisiadau, gan atgyfnerthu diwylliant cadarnhaol lle caiff eu cyfraniad ei werthfawrogi'n fawr, a chaiff eu hawliau a'u hurddas eu cynnal yn gyson. | Caiff y bobl eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Darperir amgylchedd diogel i'r bobl lle maent yn teimlo'n ddiogel bob amser. Mae systemau effeithiol ar waith i sicrhau y caiff pob llais ei glywed a'i barchu. Mae systemau cymorth cadarn er mwyn sicrhau y caiff unrhyw risgiau eu nodi ac yr ymdrinnir â nhw'n brydlon. | Nid yw'r bobl bob amser yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod mewn amgylchedd diogel lle maent yn teimlo'n ddiogel. Ni chaiff risgiau bob amser eu nodi ac nid ymdrinnir â nhw'n brydlon gan fod angen atgyfnerthu'r systemau cymorth er mwyn sicrhau diogelwch y bobl. | Yn aml, mae'r bobl yn agored i gamdriniaeth ac esgeulustod, ac maent yn aml mewn amgylchedd anniogel lle mae diogelwch yn bryder parhaus. Nid oes systemau digonol ar waith i sicrhau y caiff lleisiau eu clywed a'u parchu. Mae risgiau yn aml yn cael eu diystyru a'u camddeall, ac nid ymdrinnir â nhw bob amser.<br><br>Gall y diwylliant ymddangos yn annidwyll, gydag ymdrechion i gynnal safonau diogelwch, hawliau, ac urddas yn ymddangos mwy fel ymarfer ticio blwch nag ymrwymiad gwirioneddol. |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| Caiff y bobl wybodaeth gynhwysfawr am eu hawliau. Cânt gymorth ac anogaeth hynod effeithiol i leisio eu pryderon yn effeithiol. Mae adnoddau hynod greadigol ar gael yn hwylus er mwyn helpu'r bobl i ddeall sut i gyfleu eu hanghenion a'u pryderon. Mae gan y bobl ymdeimlad cryf iawn o rym a sgiliau hunan-eirioli gan eu bod yn cael cymorth rhagorol i ddefnyddio gwasanaethau eirioli. | Caiff y bobl eu hysbysu am eu hawliau a'u cefnogi i leisio eu pryderon yn effeithiol. Caiff adnoddau a gwasanaethau eirioli eu defnyddio'n effeithiol i'w helpu i gyfleu eu hanghenion a'u pryderon mewn ffyrdd addas, gan feithrin grym a sgiliau hunan-eirioli. | Ni chaiff y bobl eu hysbysu am eu hawliau bob amser. Ni chânt eu cefnogi'n gyson i leisio eu pryderon, a dim ond mynediad cyfyngedig sydd i wasanaethau eirioli pan fo'u hangen. | Anaml y caiff y bobl eu hysbysu am eu hawliau ac yn aml ni chânt eu cefnogi i leisio eu pryderon yn effeithiol. Ni chaiff y bobl eu cefnogi i ddefnyddio gwasanaethau eirioli pan fo'u hangen. |

**Llinell ymholi 3: Caiff y bobl gymorth i feithrin cydberthnasau diogel ac iach** gan gynnwys ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon â'u cymuned, teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a datblygu hyd at eu potensial llawn, a hynny gan wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Mae hyn yn cynnwys cynnal llesiant ariannol ac annibyniaeth a chael gofal yn Gymraeg os byddant am gael hynny.

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| Gydag eithriadau prin, caiff llesiant y bobl a'u hymdeimlad o werth eu gwella'n sylweddol gan bob arweinydd a phob aelod o'r staff, sy'n wybodus ac yn dathlu ac yn hyrwyddo amrywiaeth.<br><br>Caiff y bobl gymorth strwythuredig ac ysgogol helaeth er mwyn galluogi ymdeimlad o ddiben a chyfeiriad.<br><br>Caiff y bobl eu grymuso i ffynnu, gyda llawer o gyfleoedd i gynnal, datblygu ac archwilio eu diddordebau, eu cryfderau a'u sgiliau. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys cyfleoedd addysg, dysgu, cyflogaeth a hamdden. | Mae llawer o'r bobl yn cael eu hannog i dderbyn eu hunaniaeth a'u nodweddion unigryw, gan wybod eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu.<br>Caiff diddordebau'r bobl, eu diwylliant, eu profiadau bywyd yn y gorffennol, gan gynnwys rhywioldeb, hunaniaeth rhywedd, ysbrydolrwydd a chydberthnasau pwysig, eu nodi gan yr arweinwyr a'r staff, gan gydnabod pwysigrwydd yr agweddau hyn ar gyfer pob unigolyn. | Ni chaiff y bobl eu hannog i fod yn falch o bwy ydynt bob amser. Gall cymorth fod yn gyfyngedig gan wneud i'r bobl deimlo ar goll a theimlo nad oes ganddynt unrhyw gyfeiriad. Ni chaiff eu diddordebau, eu diwylliant, eu profiadau yn y gorffennol a'u cydberthnasau pwysig eu derbyn yn llawn gan yr arweinwyr a'r staff, gan wneud i'r bobl deimlo nad yw'r rhannau hyn o'u bywydau yn bwysig. | Mae profiadau'r bobl yn wael oherwydd stigma neu gan eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu barnu ac nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi ddigon oherwydd eu hamgylchiadau neu eu nodweddion gwarchodedig.<br><br>Ni chaiff diddordebau'r bobl, eu diwylliant na'u bywyd yn y gorffennol, gan gynnwys rhywioldeb, hunaniaeth rhywedd, ysbrydolrwydd neu gydberthnasau pwysig eu nodi'n ddigonol, a cheir cydnabyddiaeth wael o bwysigrwydd hyn ar gyfer pob unigolyn. |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| Ceir cyfleoedd rheolaidd i'r bobl gysylltu ag aelodau o'u teulu a'u ffrindiau ac i gyfrannu at gymunedau lleol, mewn ffyrdd creadigol a dychmygus, gan gynnwys technoleg a chyfranogiad ar-lein.<br><br>Caiff y bobl gymorth eithriadol o dda i wneud ffrindiau. Cânt eu hannog yn weithredol i rannu eu hobïau, i dreulio amser gyda'i gilydd ac i helpu ei gilydd.<br><br>Mae gan bob aelod o'r staff ddealltwriaeth ragorol o ddiogelwch, gan bwyso a mesur risgiau a gwobrau er mwyn hyrwyddo llesiant cyffredinol a chyfranogiad yn y gymuned. | Caiff y bobl eu cefnogi i feithrin a chynnal cydberthnasau sy'n bodoli eisoes ag aelodau o'u teulu, ffrindiau a phobl bwysig yn eu bywydau cymaint â phosibl. Caiff hyn ei hwyluso gan aelodau o staff sy'n parchu'r cydberthnasau hynny a'u pwysigrwydd ym mywydau'r bobl. Mae'r staff yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol a'r mynediad angenrheidiol i dechnoleg i gefnogi hyn.<br><br>Caiff y bobl eu hannog i gymryd risgiau cadarnhaol, gan bwyso a mesur manteision ac anfanteision, er mwyn hybu eu hyder a meithrin cyfranogiad cymunedol.<br><br>Caiff y bobl eu cefnogi i ddatblygu a chynnal cydberthnasau cadarnhaol o fewn eu cymuned ac â'r bobl y maent yn byw gyda nhw. | Nid yw'r bobl bob amser yn cael eu cefnogi i gynnal cydberthnasau ag aelodau o'u teulu, ffrindiau a phobl bwysig yn eu bywydau. Mae'n bosibl na fydd y staff bob amser yn parchu'r cydberthnasau hyn nac yn deall pam eu bod mor bwysig i'r bobl.<br><br>Caiff y bobl eu cefnogi gan aelodau o staff nad oes ganddynt yr amser sydd ei angen bob tro i helpu neu roi arweiniad i'r bobl wrth ddefnyddio technoleg i gysylltu ag aelodau o'u teulu neu eu ffrindiau a'r rhai hynny sy'n bwysig iddynt.<br><br>Mae'r staff yn dangos agwedd anghyson wrth gefnogi'r bobl i gymryd rhan mewn cydberthnasau cadarnhaol o fewn eu cymuned ac â'r bobl y maent yn byw gyda nhw. | Nid yw'r bobl yn cael eu cefnogi i aros mewn cysylltiad â'r rhai hynny sy'n bwysig iddynt.<br><br>Nid yw'r staff yn ceisio dod o hyd i ffyrdd eraill o helpu'r bobl i aros mewn cysylltiad lle nad oes ymwelwyr yn dod i'w gweld.<br><br>Nid oes amser gan y staff i gefnogi / addysgu'r bobl i ddefnyddio technoleg i ymgysylltu ag aelodau o'u teulu neu eu ffrindiau.<br><br>Caiff trefniadau ymweld ac ymgysylltu â'r gymuned ehangach eu hystyried mewn ffordd rhy ochelgar sy'n osgoi risgiau mewn ffordd ormodol.<br><br>Mae hyder y bobl yn wael gan mai cyfleoedd cyfyngedig y maent yn eu cael i fod yn weithgar yn gymdeithasol neu gan nad ydynt yn cael y cymorth angenrheidiol i feithrin cydberthnasau cadarnhaol |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| | | | o fewn eu cymuned ac â'r bobl y maent yn byw gyda nhw. |
| Gydag eithriadau prin, caiff hawl y bobl i reoli eu materion ariannol a'u heiddo personol ei pharchu a'i hyrwyddo mewn ffordd weithredol, gan roi cymaint o ddewis, rheolaeth ac annibyniaeth â phosibl iddynt. Lle na all y bobl reoli eu harian, mae'r penderfyniadau a wneir yn gwella ansawdd eu bywyd ac mae'r trefniadau cymorth yn glir, yn ddiogel ac yn atebol. | Caiff y bobl eu cefnogi'n gyson i reoli eu harian yn effeithiol. Mae'r staff yn gyfarwydd â gweithdrefnau'r darparwr ar gyfer helpu'r bobl i gyllidebu a / neu wneud penderfyniadau gwario ac yn eu dilyn yn effeithiol. Nid yw'r staff yn ymwneud â materion ariannol y bobl oni bai bod angen gwneud hynny fel rhan o gynlluniau gofal y cytunwyd arnynt.<br><br>Lle y bo'n briodol, caiff y bobl eu hannog a'u cefnogi i ymdrin â'u materion ariannol eu hunain. Mae'r mesurau hyn yn helpu'r bobl i gynnal rheolaeth dros eu harian ac yn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd. | Ni chaiff y bobl eu cefnogi i reoli eu harian bob amser. Nid ymdrinnir â materion ariannol mewn ffordd gyson.<br><br>Nid yw'r staff bob amser yn siŵr pa weithdrefnau i'w dilyn a pha gymorth i'w gynnig os bydd materion yn codi. | Nid yw'r bobl yn cael eu cefnogi'n effeithiol i reoli eu harian. Yn aml, caiff y bobl eu cymell i beidio ag ymdrin â'u materion ariannol eu hunain, ac ni chânt lawer o gymorth i gyllidebu a gwneud penderfyniadau gwario.<br><br>Nid oes camau amddiffyn ar waith i atal y staff rhag ymwneud â materion ariannol y bobl yn ddiangen, gan arwain at ddiffyg rheolaeth a thryloywder, neu at achosion o gamreoli arian y bobl. |

**Llinell ymholi 4: Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau llesiant dymunol.**
**(ar gyfer gwasanaethau llety yn unig)**

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| Mae'r darparwr bob amser yn rhoi blaenoriaeth i lesiant y bobl, gan sicrhau nid yn unig bod eu llety yn diwallu eu hanghenion ond ei fod hefyd yn gwella ansawdd eu bywyd yn sylweddol.<br><br>Mae'r bobl bob amser yn cyflawni canlyniadau neilltuol gan eu bod yn byw mewn llety wedi'i bersonoli'n sylweddol y maent yn teimlo ymdeimlad cryf o berchnogaeth drosto ac sydd wir yn teimlo fel cartref iddynt.<br><br>Mae amrywiaeth gynhwysfawr o dechnoleg a gwybodaeth yn cael ei darparu i'r bobl gan eu grymuso i gyflawni eu canlyniadau llesiant yn effeithiol.<br><br>Mae'r bobl yn cael eu cynnwys mewn ffyrdd hynod effeithiol mewn sgyrsiau am eu hamgylchedd gan wneud yn siŵr ei fod yn bodloni eu dymuniadau, | Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n diwallu eu hanghenion. Mae'r darparwr yn rhoi blaenoriaeth i lesiant y bobl wrth werthuso a yw'r llety yn diwallu eu hanghenion.<br><br>Mae'r cyfarpar a'r dechnoleg sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu canlyniadau llesiant ar gael i'r bobl.<br><br>Caiff safbwyntiau ac anghenion y bobl eu hystyried wrth ddylunio, adeiladu, cynnal a chadw, adnewyddu neu addasu'r safle. | Ni chaiff llesiant y bobl bob amser ei flaenoriaethu gan y darparwr wrth werthuso a all y llety ddiwallu eu hanghenion.<br><br>Weithiau ni chaiff canlyniadau llesiant y bobl eu cyflawni gan nad yw'r llety yn foddhaol a'i fod yn cyfyngu ar brofiadau cadarnhaol a chanlyniadau llesiant y bobl.<br><br>Nid yw'r bobl bob amser yn cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau llesiant gan mai mynediad cyfyngedig sydd ganddynt i'r cyfarpar a'r dechnoleg sydd eu hangen arnynt.<br><br>Ni chaiff y bobl a all rannu eu safbwyntiau ar addurno'r gwasanaeth a chynllun y gwasanaeth bob amser eu clywed. Ni chaiff safbwyntiau'r bobl na allant gyfleu eu | Nid yw llesiant y bobl yn cael ei flaenoriaethu gan y darparwr wrth werthuso a all y llety ddiwallu eu hanghenion.<br><br>Anaml y caiff canlyniadau'r bobl eu cyflawni gan eu bod yn byw mewn llety nad yw'n gartrefol ac nad yw'n addas at y diben.<br><br>Mae hyn yn llesteirio profiadau a chanlyniadau cadarnhaol i'r bobl gan nad yw'r safle yn cael ei addasu i hyrwyddo na gwella ansawdd eu bywyd na'u llesiant.<br><br>Anaml y mae'r cyfarpar a'r dechnoleg sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu canlyniadau llesiant ar gael i'r bobl.<br><br>Nid ymgynghorir â'r bobl ac ni chaiff eu hanghenion diwylliannol na'u hanghenion cymorth eu hystyried wrth wneud newidiadau i'r amgylchedd. |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| eu diwylliant, a'u hanghenion ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant. | | dymuniadau ar lafar eu hystyried fel mater o drefn.<br><br>Yn aml, caiff newidiadau amgylcheddol eu gwneud heb ymgynghori, gan ddiystyru dymuniadau personol, anghenion diwylliannol ac anghenion cymorth. | Yn aml, nid yw cyfleusterau yn y gwasanaeth yn bodloni gofynion y bobl nac yn hyrwyddo annibyniaeth. |

## Thema arolygu: Gofal a Chymorth

**Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld:**

Caiff y bobl eu trin â charedigrwydd, empathi a thosturi bob amser.  Mae'r bobl yn deall eu bod yn bwysig a bod eu profiad o ran sut y cânt eu trin a'u cefnogi yn bwysig. Caiff eu preifatrwydd a'u hurddas eu parchu. Gwneir pob ymdrech i ystyried dymuniadau'r bobl ac i barchu eu dewisiadau. Mae hyn yn cynnwys cefnogi'r bobl i fod mor annibynnol â phosibl.

Caiff y bobl eu trin fel unigolion ac mae'r gofal a'r cymorth a gânt yn diwallu eu hanghenion ac yn bodloni eu dymuniadau. Caiff cryfderau, galluoedd, dyheadau, diwylliant a chefndiroedd a nodweddion gwarchodedig unigryw'r bobl eu hystyried.

Wrth arolygu'r thema hon, mae'r arolygwyr yn ystyried sut mae'r trefniadau ar gyfer gofal a chymorth, a'r broses o'u darparu, yn cyfrannu at lesiant y bobl.

**Llinell Ymholi 5: Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o'r ansawdd sydd ei angen arnynt i gyflawni eu canlyniadau personol -** caiff y gofal ei gynllunio drwy ymgynghori â'r bobl, gan ystyried eu dymuniadau, eu dyheadau, risgiau, ac anghenion arbenigol. Mae'r bobl yn cael parhad gofal, ac mae'r staff yn ymgynghori â'r asiantaethau a'r arbenigwyr perthnasol fel y bo angen. Darperir gofal a chymorth yn yr iaith a'r dull cyfathrebu sy'n diwallu anghenion y bobl orau.

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| Gydag eithriadau prin iawn, caiff y bobl ofal a chymorth o ansawdd uchel iawn gan fod y darparwr yn cynnal asesiadau hynod effeithiol i benderfynu a all ddiwallu anghenion yr unigolyn ochr yn ochr â'r bobl hynny sydd eisoes yn defnyddio'r gwasanaeth, cyn cynnig gwasanaeth.<br><br>Mae'r darparwr yn casglu gwybodaeth hynod fanwl gan weithwyr proffesiynol eraill a sefydliadau sydd eisoes yn gysylltiedig â gofal y bobl, er mwyn llywio ei benderfyniad ynghylch a all ddarparu gwasanaeth. Mae ei sgyrsiau cychwynnol â'r bobl yn bwysig iawn iddo er mwyn meithrin cydberthnasau cryf iawn â nhw. | Caiff y rhan fwyaf o'r bobl ofal o ansawdd da yn gyson gan fod y darparwr yn asesu eu hanghenion a'u canlyniadau personol yn drylwyr, yn ogystal â'r effaith ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ar hyn o bryd, cyn cytuno i ddarparu'r gwasanaeth.<br><br>Ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth, mae'r aseswyr wedi cael hyfforddiant penodol neu'n gofyn am gyngor gan arbenigwyr. Ar gyfer pobl ag anghenion nyrsio, caiff yr asesiadau eu cynnal gan nyrs gofrestredig sy'n meddu ar y sgiliau perthnasol.<br><br>Mae'r darparwr yn casglu gwybodaeth ddefnyddiol gan weithwyr proffesiynol ac eraill sydd eisoes yn gysylltiedig â gofal a chymorth y bobl. Mae'n siarad â'r bobl eu hunain am eu hanghenion a'u dewisiadau lle y | Mae'r bobl yn wynebu anawsterau ag ansawdd y gofal y maent yn ei gael gan ddarparwr y gwasanaeth gan nad yw'r asesiadau o'u hanghenion ar ddechrau'r gwasanaeth yn gyson neu gan mai gwybodaeth gyfyngedig a gaiff ei chasglu am y bobl.<br><br>Nid yw asesiadau gofal y bobl bob amser yn ystyried eu holl anghenion amrywiol. Nid yw'r darparwr bob amser yn sicrhau y caiff asesiadau eu cwblhau gan aelodau o staff sydd wedi cael hyfforddiant addas, sydd wedi'u hawdurdodi neu sy'n gymwys i wneud hynny.<br><br>Ni chaiff asesiadau gan weithwyr iechyd neu weithwyr perthynol proffesiynol allanol bob amser eu cynnwys fel rhan o'r prosesau cynllunio gofal, gan arwain at | Mae'r bobl yn aml yn cael gofal o ansawdd annigonol gan nad yw darparwr y gwasanaeth yn cynnal asesiad effeithiol o'u hanghenion cyn cytuno i ddarparu gwasanaeth.<br><br>Nid yw'r darparwr yn casglu gwybodaeth fanwl am anghenion gofal a chymorth y bobl a'r risgiau posibl i'w canlyniadau llesiant, a / neu'n ystyried yr effaith bosibl ar y bobl sydd eisoes yn defnyddio'r gwasanaeth.<br><br>Mae pobl ag anghenion cymhleth yn wynebu risg gan na fydd darparwr y gwasanaeth o bosibl wedi sicrhau bod aseswyr wedi cael yr hyfforddiant penodol sydd ei angen arnynt neu y byddant yn gofyn am gyngor gan arbenigwyr. |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| | bo'n bosibl. Mae'r wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio'n llawn i lywio'r penderfyniad ynghylch a all ddarparu gwasanaeth i'r bobl. | fylchau o ran yr anghenion a nodir. | |
| Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth eithriadol gan eu bod yn cael eu cynnwys yn helaeth yn y broses gynllunio. Mae'r staff yn defnyddio strategaethau sydd wedi'u teilwra at bob unigolyn i gynnwys ac ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon â'r bobl, eu teuluoedd, ffrindiau, a gweithwyr proffesiynol eraill yn y broses gynllunio.<br><br>Mae'r bobl yn cael eu trin yn deg a chydag urddas a pharch yn ystod adolygiadau, ac mae eu dymuniadau a'u hanghenion unigol yn gwbl amlwg ym mhob rhan o'u cynlluniau sydd wedi'u personoli i lefel uchel.<br><br>Mae'r darparwr yn rhagori'n gyson wrth rymuso'r bobl i nodi a chyflawni canlyniadau iechyd a llesiant newydd cynaliadwy na chawsant o bosibl eu hystyried yn flaenorol. | I'r bobl sydd am gael eu cynnwys, caiff y cynllun ar gyfer eu gofal a'u cymorth ei gydgynhyrchu rhyngddyn nhw, eu cynrychiolwyr, gweithwyr proffesiynol perthnasol a darparwr y gwasanaeth.<br><br>Mae cynlluniau personol y bobl yn seiliedig ar gryfderau ac yn nodi sut y dylai'r staff gefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau llesiant. Mae cynlluniau'r bobl yn cynnwys eu dewisiadau, eu trefn arferol a'u credoau yn gyson.<br><br>Lle byddant am gyfrannu, caiff y bobl eu hannog i gyfrannu at adolygiadau rheolaidd o'u cynlluniau personol, ar y cyd â chynrychiolwyr perthnasol, a chaiff cynlluniau eu diweddaru os bydd eu hanghenion neu eu dewisiadau yn newid.<br><br>Caiff diddordebau'r bobl, eu diwylliant, eu bywyd yn y | Nid yw'r bobl bob amser yn cael eu cynnwys wrth gynllunio sut y caiff eu hanghenion gofal a chymorth eu diwallu. Mae hyn yn golygu nad oes gan y staff ddealltwriaeth lawn o anghenion y bobl.<br><br>Mae cynlluniau personol y bobl yn cynnwys gwybodaeth gyfyngedig, anghyson neu annibynadwy. Nid ydynt bob amser yn seiliedig ar yr hyn y gall y bobl ei wneud drostynt eu hunain. Mae hyn yn golygu nad yw'r staff o bosibl bob amser yn ymwybodol o anghenion cyfredol y bobl.<br><br>Lle caiff y bobl eu cynnwys wrth adolygu'r gofal a'r cymorth a gynlluniwyd ar eu cyfer, ni chaiff hyn bob amser ei wneud mewn ffordd gadarnhaol sy'n parchu eu llais a / neu'n ei drin mewn ffordd deg o gymharu â lleisiau unigolion | Mae'r bobl yn aml yn teimlo eu bod yn cael eu heithrio o'r broses o gynllunio eu gofal a'u cymorth.<br><br>Anaml y caiff cynlluniau personol y bobl eu cwblhau ar y cyd â nhw a / neu weithwyr proffesiynol perthnasol. Nid oes digon o fanylion yn y cynlluniau i hysbysu'r staff yn briodol am anghenion gofal a chymorth y bobl.<br><br>Mae cynlluniau personol y bobl yn anghyflawn neu nid ydynt yn cynnwys y manylion sydd eu hangen i sicrhau bod y staff yn gwybod pa ofal a chymorth sydd eu hangen arnynt.<br><br>Ni chaiff cynlluniau personol y bobl eu hadolygu'n rheolaidd, ac ni chaiff y bobl eu cynnwys. Ni chaiff cynlluniau'r bobl eu diweddaru mewn modd amserol hyd yn oed pan fydd eu |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| Ar gyfer pobl ag anghenion iechyd cymhleth neu barhaus, mae'r staff bob amser yn ceisio gwella'r gofal, y driniaeth a'r cymorth drwy nodi a chymhwyso'r ymarfer diweddaraf yn seiliedig ar dystiolaeth. | gorffennol, nodweddion gwarchodedig a chydberthnasau pwysig eu hadlewyrchu yn y cynlluniau.<br><br>**Ar gyfer plant sy'n derbyn gofal**, mae adolygiad darparwr y gwasanaeth o'u cynlluniau personol yn cyd-fynd ag amserlenni adolygu gofal yr awdurdod lleoli. | eraill sy'n gysylltiedig â'u gofal a'u cymorth.<br><br>Ni chaiff diddordebau'r bobl, eu diwylliant, eu bywyd yn y gorffennol, nodweddion gwarchodedig a chydberthnasau pwysig bob amser eu hadlewyrchu yn y cynlluniau.<br><br>**Ar gyfer plant sy'n derbyn gofal**, nid yw adolygiad darparwr y gwasanaeth o'u cynlluniau personol bob amser yn cyd-fynd ag amserlenni adolygu gofal yr awdurdod lleoli. | hanghenion neu eu dewisiadau yn newid.<br><br>Ni wrandewir ar safbwyntiau'r bobl am eu hanghenion gofal a chymorth, ac nid yw'r staff yn gwerthfawrogi eu dewisiadau. Caiff diddordebau'r bobl, eu diwylliant, eu bywyd yn y gorffennol, nodweddion gwarchodedig a chydberthnasau pwysig yn aml eu diystyru yn y cynlluniau, ac anaml iawn y caiff pwysigrwydd hanfodol yr elfennau hyn i bob unigolyn ei gydnabod.<br><br>**Ar gyfer plant sy'n derbyn gofal**, nid yw adolygiad darparwr y gwasanaeth o'u cynlluniau personol yn cyd-fynd ag amserlenni adolygu gofal yr awdurdod lleoli. |
| Gydag eithriadau prin iawn, mae'r bobl yn cyflawni eu dyheadau personol a chanlyniadau hynod gadarnhaol yn gyson gan fod y darparwr yn defnyddio gwaith ymchwil yn seiliedig ar dystiolaeth, deddfwriaeth a / neu bolisi perthnasol, gan gynnwys y | Caiff llawer o'r bobl ofal a chymorth sy'n dangos urddas a pharch, ac maent yn rhyngweithio'n ystyrlon â'r staff, ffrindiau, aelodau o'u teulu a phobl eraill. | Ni chaiff anghenion gofal a chymorth y bobl bob amser eu diwallu.<br><br>Mae'r staff yn anghyson wrth ddilyn y cynlluniau personol. Nid yw'r cofnodion bob amser yn | Mae'r bobl yn profi diffygion sylweddol o ran ansawdd y gofal, gan gynnwys diffyg gofal sy'n dangos urddas neu barch.<br><br>Anaml y mae'r staff yn cydnabod pan fydd angen cymorth ar y bobl neu pan fyddant am gael cymorth. |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| gwersi a ddysgwyd o adolygiadau, i lywio ymarfer.<br><br>Caiff y bobl eu cefnogi gan staff hynod fedrus sy'n meddu ar ddealltwriaeth ragorol o'u hanghenion a'u dewisiadau unigol, gan gynnwys eu nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig, eu gwerthoedd a'u credoau, a all ddylanwadu ar sut y byddant am gael gofal, triniaeth a chymorth. | Mae'r rhan fwyaf o'r ymarfer yn seiliedig ar waith ymchwil cyfredol yn seiliedig ar dystiolaeth, deddfwriaeth a /neu bolisi perthnasol gan gynnwys y gwersi a ddysgwyd o adolygiadau.<br><br>Lle bo'r bobl yn arddangos mathau o ymddygiad a all herio pobl eraill, cânt eu cefnogi mewn ffordd gadarnhaol gan aelodau medrus o staff sy'n diogelu eu hurddas a hawliau pawb dan sylw.<br><br>Mae'r staff yn adolygu dulliau cefnogi ymddygiad yn rheolaidd ar y cyd â'r bobl a gweithwyr proffesiynol perthnasol.<br><br>Caiff gofal ei ddarparu mewn ffordd sy'n helpu i ddatblygu trefn a strwythurau i'r bobl yn unol â'u hanghenion a'u dewisiadau. | dangos bod gofal wedi cael ei ddarparu mewn modd amserol.<br><br>Nid oes gan y bobl ag anghenion cymhleth neu sy'n dangos mathau o ymddygiad a allai herio eraill gynlluniau digon manwl i sicrhau bod y staff yn gwybod sut i'w cefnogi ac atal niwed i'w llesiant neu i lesiant pobl eraill yn y ffordd orau.<br><br>Ni chaiff gofal bob amser ei ddarparu mewn ffordd sy'n hyrwyddo trefn a strwythur i'r bobl yn unol â'u hanghenion a'u dewisiadau. | Maent yn ymddangos fel petaent yn rhuthro ac yn canolbwyntio ar dasgau wrth wneud eu gwaith, sy'n golygu nad oes llawer o ryngweithio ystyrlon.<br><br>Ceir achosion rheolaidd o oedi wrth ddarparu gofal i'r bobl, ac yn aml ni chaiff eu hanghenion diwylliannol a chrefyddol eu diwallu.<br>Lle mae'r bobl yn dangos mathau o ymddygiad a allai herio eraill, mae'n bosibl y caiff y potensial o niwed i bobl eraill ei anwybyddu neu na chaiff ei nodi.<br><br>Ni chaiff gofal ei ddarparu mewn ffordd sy'n helpu i ddatblygu trefn a strwythur yn unol ag anghenion a dewisiadau'r bobl, neu ni chaiff pwysigrwydd hynny ei gydnabod. |
| Mae darparwr y gwasanaeth yn defnyddio cysylltiadau sefydledig cadarn iawn â gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau | Caiff y bobl eu hatgyfeirio i gael gofal a thriniaeth briodol ar yr adeg gywir a chaiff argymhellion ar gyfer gofal a thriniaeth gan | Mae atgyfeiriadau at weithwyr gofal iechyd a gweithwyr perthynol proffesiynol ar yr adeg gywir | Ni chaiff y bobl eu cynnwys mewn penderfyniadau am yr hyn y byddant yn ei fwyta a'i yfed. Yn aml, ni chaiff anghenion deietegol |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol lleol gan arwain at ganlyniadau rhagorol i'r bobl.<br><br>Caiff prosesau hybu iechyd eu hannog yn weithredol ac maent wedi'u personoli i lefel uchel.<br><br>Mae'r pasbortau iechyd wedi'u personoli i lefel uchel, ac mae'r staff yn gweithredu fel eiriolwyr dros y bobl pan fo angen. | weithwyr proffesiynol eraill eu rhoi ar waith yn unol â'r cyfarwyddyd.<br><br>Mae'r darparwr yn sicrhau y gall y bobl ddilyn deiet maethlon a chytbwys. Caiff anghenion deietegol arbenigol ac anghenion sy'n gysylltiedig â diwylliant, moeseg a chrefydd eu diwallu fel mater o drefn.<br>Caiff y bobl eu cynorthwyo a'u cefnogi i fynychu ac i gymryd rhan mewn gwiriadau iechyd a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â hybu iechyd, lle y bo'n briodol. Mae'r staff yn ymwybodol o'u rôl o ran hybu iechyd.<br><br>Caiff y bobl gymorth i fanteisio ar amwynderau sy'n hybu eu hiechyd a'u llesiant neu'n eu helpu i gyflawni canlyniadau, fel canolfannau hamdden, dosbarthiadau ffitrwydd neu weithgareddau therapiwtig eraill.<br><br>Caiff pasbortau iechyd a chynlluniau pontio eu datblygu, eu | a / neu mewn ffordd sy'n sicrhau y caiff iechyd a llesiant y bobl eu cynnal neu eu gwella yn anghyson.<br><br>Ni chaiff argymhellion ar gyfer gofal a thriniaeth gan weithwyr proffesiynol eraill bob amser eu rhoi ar waith yn unol â'r cyfarwyddyd.<br><br>Ni chaiff anghenion deietegol arbenigol ac anghenion sy'n gysylltiedig â diwylliant, moeseg a chrefydd bob amser eu diwallu. | arbenigol ac anghenion sy'n gysylltiedig â diwylliant, moeseg a chrefydd eu diwallu. Nid oes deiet cytbwys a maethlon ar gael i'r bobl.<br><br>Ni chaiff atgyfeiriadau ar gyfer gofal a thriniaeth briodol ar yr adeg gywir eu gwneud, ac ni chaiff argymhellion ar gyfer gofal a thriniaeth gan weithwyr proffesiynol eraill eu rhoi ar waith yn unol â'r cyfarwyddyd.<br><br>Ni chaiff cynlluniau personol y bobl eu diweddaru mewn modd amserol er mwyn cynnwys eu hanghenion diweddaraf pan fydd eu hanghenion yn newid yn dilyn adolygiad gan weithwyr proffesiynol allanol. |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| | cynnal a'u defnyddio'n gyson i'r bobl sydd eu hangen. Mae'r drefn ddyddiol i'r plant a'r bobl ifanc yn hybu iechyd a gweithgarwch. | | |

**Llinell ymholi 6: Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth.**

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| Caiff y bobl eu cadw'n ddiogel drwy ddull diogelu eithriadol o gadarn. Ceir diwylliant rhagweithiol a chadarnhaol o ddiogelwch yn y gwasanaeth, yn seiliedig ar fod yn agored a gonestrwydd.<br><br>Mae pob aelod o'r staff yn deall Gweithdrefnau Diogelu Cymru ac yn eu deall.<br><br>Mae darparwr y gwasanaeth yn chwilio'n barhaus am ffyrdd o wella diogelwch drwy ddiwylliant o ymarfer myfyriol ac yn rhoi newidiadau cadarnhaol cynaliadwy ar waith. Mae hyn yn cynnwys dysgu gwersi o adolygiadau mewnol ac allanol.<br><br>Lle bo angen gwelliannau, cânt eu rhannu'n agored a'u deall gan bob aelod o'r staff, sy'n rhannu cyfrifoldeb dros roi'r gwelliannau ar waith. | Caiff y bobl eu cadw'n ddiogel rhag niwed a chamdriniaeth, gan sicrhau y bodlonir yr holl ofynion cyfreithiol.<br><br>Gwrandewir ar bryderon am diogelwch, rhoddir gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch ac ymchwilir iddynt yn drylwyr, a chaiff gwersi eu dysgu er mwyn nodi arferion da yn barhaus.<br><br>Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel, gan wybod bod y staff a'r gwirfoddolwyr yn deall eu cyfrifoldebau diogelu ac yn gweithredu'n unol â nhw.<br><br>Caiff gwelliannau eu gwneud i'r gwasanaeth mewn ymateb i faterion a nodir drwy ddigwyddiadau diogelu.<br><br>Lle ceir honiadau o gam-drin, esgeuluso neu driniaeth amhriodol, mae darparwr y gwasanaeth yn cymryd camau ar | Nid yw'r staff bob amser yn cydnabod nac yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch y bobl, sy'n golygu y gallai'r bobl fod yn agored i achosion o fwlio, aflonyddu, niwed, camdriniaeth, esgeulustod a gwahaniaethu.<br><br>Ni all y staff  arddangos eu bod yn deall ymarfer diogelu bob amser.<br><br>Lle ceir honiadau o gam-drin, esgeuluso neu driniaeth amhriodol, nid yw darparwr y gwasanaeth bob amser yn cymryd camau priodol i sicrhau diogelwch y bobl sy'n cael gofal a chymorth. | Mae'r bobl sy'n derbyn gwasanaeth wedi wynebu niwed neu gamdriniaeth gan gynnwys, er enghraifft, achosion o fwlio, aflonyddu, esgeulustod a chamdriniaeth gorfforol, a gwahaniaethu, neu maent yn wynebu risg sylweddol ac uniongyrchol o hynny.<br><br>Ni chaiff y bobl a / neu'r staff eu cefnogi i godi pryderon diogelu ac mae'n bosibl y byddant yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i beidio â gwneud hynny neu hyd yn oed yn ofni gwneud hynny.<br><br>Nid yw'r staff yn gallu disgrifio eu cyfrifoldebau mewn perthynas â chadw'r bobl yn ddiogel. Nid ydynt yn gwybod sut i roi gwybod am bryderon a / neu ble i ddod o hyd i bolisïau, gweithdrefnau neu ganllawiau.<br><br>Mae'n bosibl bod y staff yn cymryd rhan mewn arferion gwael neu'n goddef arferion gwael heb |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| | unwaith i sicrhau diogelwch yr unigolion hynny sy'n cael gofal a chymorth, ac yn gwneud atgyfeiriadau priodol at yr asiantaethau perthnasol, fel yr awdurdodau lleol. | | ystyried eu heffaith ar ddiogelwch emosiynol a chorfforol y bobl, eu llesiant a'u hurddas.<br><br>Mae'n bosibl y caiff risgiau i'r bobl eu diystyru neu eu hanwybyddu gan arwain at risg sylweddol o niwed iddynt.<br><br>Nid yw darparwr y gwasanaeth yn gwneud atgyfeiriadau priodol at asiantaethau perthnasol, megis awdurdodau lleol, ac mae'n bosibl mai dim ond pan fydd gweithwyr proffesiynol allanol yn awgrymu y dylai wneud hynny y bydd yn gwneud hynny. |
| Caiff hawliau'r bobl i ryddid eu hamddiffyn a'u diogelu.<br><br>Caiff y bobl eu cefnogi gan staff sy'n meddu ar wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth eang o sut i leihau arferion cyfyngol er mwyn sicrhau bod pawb yn teimlo'n ddiogel gan fwynhau cymaint o ryddid â phosibl, ni waeth beth fo'u hanghenion. | Caiff rhyddid y bobl ei amddiffyn yn unol â deddfwriaeth.<br><br>Caiff y bobl eu cefnogi gan staff medrus a chymwys i gyflawni eu canlyniadau personol drwy'r ffyrdd lleiaf cyfyngol posibl. | Ni chaiff rhyddid rhai o'r bobl ei amddiffyn yn unol â'u lles pennaf a deddfwriaeth, a chaiff yr arferion lleiaf cyfyngol eu cymhwyso mewn modd anghyson gan aelodau o staff sy'n meddu ar wybodaeth a sgiliau cyfyngedig. | Nid yw rhyddid llawer o'r bobl yn cael ei amddiffyn yn unol â deddfwriaeth.<br><br>Ni ofynnir am gydsyniad y bobl i ofal a thriniaeth ac ni wneir penderfyniadau er lles pennaf yn unol â deddfwriaeth. Nid yw'r staff yn deall y gofynion hyn.<br><br>Lle defnyddir dulliau atal, ni chânt eu cydnabod, ac ni wneir unrhyw |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| | | | ymdrech i ddod o hyd i opsiynau llai cyfyngol er mwyn darparu'r gofal a'r driniaeth angenrheidiol. |

## Llinell ymholi 7: Caiff meddyginiaeth y bobl ei rheoli'n ddiogel.

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| Mae'r staff yn gweithio'n agos gyda'r bobl i'w cynnwys wrth ddeall a rhoi eu meddyginiaethau lle y bo'n briodol. Maent yn chwilio am ffyrdd newydd o hyrwyddo annibyniaeth a chydweithio ag asiantaethau eraill ac eiriolwyr.<br><br>Mae'r gwasanaeth yn rhagori wrth helpu'r bobl i reoli meddyginiaethau a ragnodir ar eu cyfer a meddyginiaethau dros y cownter, gan asesu'r sefyllfa yn barhaus mewn partneriaeth â'r bobl a gweithwyr proffesiynol.<br><br>Caiff pobl nad oes ganddynt o bosibl y galluedd i wneud penderfyniadau am eu meddyginiaeth eu cefnogi'n eithriadol o dda i sicrhau y caiff eu lles pennaf ei ystyried yn drylwyr, ac y caiff gweithdrefnau lles pennaf eu dilyn yn unol â deddfwriaeth. | Mae'r bobl yn cael eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd yn unol â chanllawiau cenedlaethol a pholisi meddyginiaeth darparwr y gwasanaeth.<br><br>Caiff meddyginiaethau eu storio'n gyson fel sy'n ofynnol er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn ddiogel.<br><br>Mae'r bobl yn cael meddyginiaeth mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan ystyried dewis, unigolrwydd ac annibyniaeth.<br><br>Caiff adolygiadau rheolaidd o feddyginiaethau eu cwblhau mewn modd amserol, gan gynnwys y bobl lle y bo'n briodol a'r gweithwyr proffesiynol perthnasol.<br><br>Caiff archwiliadau eu cwblhau er mwyn sicrhau ymarfer cyson ac er mwyn sicrhau y caiff safonau da eu cynnal. | Mae'n bosibl nad yw'r bobl bob amser yn cael eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd, neu'n unol â chanllawiau cenedlaethol a lleol a pholisi meddyginiaeth darparwr y gwasanaeth.<br><br>Ni chaiff adolygiadau rheolaidd o feddyginiaethau a ragnodwyd eu cwblhau'n gyson a / neu ni chaiff y canlyniadau eu cyfleu'n llawn i bob aelod perthnasol o'r staff er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael y feddyginiaeth sydd ei hangen arnynt.<br><br>Nid yw'r gwasanaeth bob amser yn cydymffurfio â gweithdrefnau priodol pan na fydd gan y bobl alluedd i wneud penderfyniadau am eu meddyginiaeth. Mae hyn yn cynnwys achosion lle gall fod angen rhoi meddyginiaeth heb iddynt wybod neu heb eu cydsyniad. | Mae'r bobl yn wynebu risg gan nad yw'r staff yn rhoi meddyginiaethau yn ddiogel, neu nid yw'r bobl yn eu cael fel y'u rhagnodwyd.<br><br>Ni chaiff meddyginiaeth ei rheoli'n briodol er mwyn sicrhau ei bod yn effeithiol neu'n ddiogel.<br><br>Ni chaiff adolygiadau rheolaidd o feddyginiaethau a ragnodwyd eu cwblhau mewn modd amserol.<br><br>Mae'r gwasanaeth yn methu â dilyn canllawiau cenedlaethol perthnasol ar gyfer meddyginiaethau nas rhagnodwyd/cynnyrch anfferyllol cartrefol.<br><br>Nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â gweithdrefnau cywir pan na fydd gan unigolion y galluedd i wneud penderfyniadau am feddyginiaeth. |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| | Mae'r gwasanaeth yn agored ac yn dryloyw ac yn dysgu o ddigwyddiadau neu gamgymeriadau a fu bron â digwydd. | | |

**Llinell ymholi 8: Caiff y risg y bydd y bobl yn cael haint ei lleihau drwy ymdrechion gan ddarparwr y gwasanaeth i hyrwyddo arferion hylendid da, ac i sicrhau bod cyflenwadau digonol ar gael i ddiwallu anghenion y bobl.**

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| Caiff y bobl eu hamddiffyn gan safonau uchel o arferion hylendid sy'n cydymffurfio â deddfau a chanllawiau sy'n ymwneud ag ymdrin â bwyd, golchi dwylo a glanhau, ynghyd â chynlluniau wrth gefn mewn argyfwng.<br><br>Mae systemau goruchwylio ac adolygu hynod effeithiol ar waith ar gyfer cyflenwadau'r gwasanaeth.<br><br>O ran paratoi bwyd, mae'r staff yn annog annibyniaeth ac awtonomi'r bobl lle y bo'n briodol drwy eu cynnwys mewn arferion hylendid bwyd da gan ddefnyddio dulliau creadigol. | Caiff y bobl eu hamddiffyn gymaint â phosibl rhag y risg o haint gan fod y safle a'r cyfarpar yn cael eu cadw'n lân ac yn hylan, a bod yr arferion hylendid bwyd yn dda.<br><br>Mae dull effeithiol ar gyfer asesu, rheoli ac atal y risg o haint, gyda rolau a chyfrifoldebau clir yn unol â'r canllawiau cenedlaethol cyfredol.<br><br>Caiff gwybodaeth am y risg o haint ei rhannu'n briodol, gan gynnwys â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ymwelwyr ac asiantaethau allanol.<br><br>Mae'r staff a'r gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi, yn deall arferion diogel er mwyn atal heintiau ac yn eu rhoi ar waith.<br><br>Mae systemau goruchwylio ac adolygu ar waith ar gyfer cyflenwadau'r gwasanaeth, | Nid yw'r bobl bob amser yn cael eu hamddiffyn gan nad yw'r gwasanaeth yn gyson yn bodloni'r canllawiau a'r safonau cenedlaethol ar gyfer rheoli heintiau a hylendid.<br><br>Nid yw pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant digonol a / neu nid ydynt o bosibl yn deall eu cyfrifoldebau hylendid yn llawn, gan arwain at arferion rheoli heintiau anghyson.<br><br>Nid yw'r staff yn hyderus wrth gymhwyso arferion rheoli heintiau a hylendid neu maent yn gwneud hynny mewn ffordd anghyson. | Mae'r bobl yn wynebu risg o ganlyniad i arferion atal a rheoli heintiau a / neu hylendid bwyd annigonol.<br><br>Ni chaiff pryderon o ran risgiau o haint neu risgiau hylendid i'r bobl eu hatgyfeirio at yr asiantaethau priodol neu ni ofynnir am gyngor.<br><br>Nid yw'r staff yn gyfarwydd â pholisïau a gweithdrefnau'r darparwr ar reoli heintiau neu nid ydynt yn eu dilyn. |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| | ynghyd â chynlluniau wrth gefn mewn argyfwng.<br><br>Mae darparwr y gwasanaeth yn cadw cyflenwadau digonol i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gyflawni canlyniadau personol y bobl. | | |

# Thema arolygu: Yr amgylchedd

**Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld:**

**Ar gyfer gwasanaethau llety**, caiff anghenion y bobl, eu dewisiadau, ac unrhyw nodweddion gwarchodedig, eu hystyried yng nghynllun, addurn, trefniadau cynnal a chadw ac atgyweirio amgylchedd y gwasanaeth.  Mae'r amgylchedd yn helpu i hyrwyddo annibyniaeth cymaint â phosibl.

Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelwch y bobl wrth gyflenwi, cynnal a chadw, gwasanaethu ac atgyweirio cyfarpar a chyfleusterau yn y gwasanaeth. Mae strategaethau a phrosesau rheoli risgiau iechyd a diogelwch yn sicrhau bod y bobl yn aros yn ddiogel ac yn eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau llesiant.

**Llinell ymholi 9: Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n diwallu eu hanghenion** – mae'r gwasanaeth yn darparu mannau cymunedol a phersonol addas, gyda chyfleusterau a chyfarpar a gaiff eu cynnal a'u cadw'n dda. Caiff risgiau i iechyd a diogelwch eu nodi, eu lliniaru a'u lleihau.

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| Ni roddir blaenoriaeth bob amser i breifatrwydd ac urddas y bobl wrth ddylunio, cynllunio a defnyddio mannau byw.<br><br>Mae gwahanol ardaloedd ar gael ar gyfer hoff weithgareddau, man preifat i gwrdd â theulu neu i dreulio amser ar eich pen eich hun, ac maent oll yn cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel iawn ac yn briodol yn ddiwylliannol. Caiff y defnydd gorau posibl ei wneud o'r mannau sydd ar gael, a hynny mewn ffordd greadigol, a defnyddir cyfarpar a thechnolegau mewn ffordd ardderchog i gefnogi gofal o ansawdd uchel wedi'i bersonoli.<br><br>Mae'r defnydd rhagorol a wneir o'r mannau sydd ar gael drwy | Caiff preifatrwydd ac urddas y bobl eu hystyried wrth ddylunio a chynllunio'r gwasanaeth.<br><br>Mae amrywiaeth o wahanol fannau cymunedol a phreifat ar gael i'r bobl lle gallant dreulio amser ar eu pen eu hunain, cymdeithasu neu gwrdd ag ymwelwyr.<br><br>Mae'r mannau cymunedol yn diwallu anghenion y bobl, gan hyrwyddo annibyniaeth a chynnig cyfleoedd ar gyfer cyfarfodydd preifat, gweithgareddau a hamdden.<br><br>Mae amgylchedd cynnes, cyfforddus, croesawgar, wedi'i oleuo'n dda â digon o awyr iach o fudd i'r bobl. Mae darparwr y | Ni chaiff preifatrwydd ac urddas y bobl bob amser eu hystyried wrth ddylunio a chynllunio'r gwasanaeth.<br><br>Ni chaiff anghenion y bobl bob amser eu diwallu gan fod y mannau addas i'r bobl gael amser preifat yng nghwmni ymwelwyr neu dreulio amser ar eu pen eu hunain yn gyfyngedig, ac eithrio eu hystafelloedd gwely. Mae addurn, cynllun a dyluniad y mannau cymunedol ac unigol yn anfoddhaol, gan gyfyngu ar allu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau dymunol.<br><br>Ni chaiff anghenion y bobl bob amser eu diwallu gan fod angen gwella systemau'r darparwr ar gyfer monitro a chynnal a chadw'r | Anaml y caiff preifatrwydd ac urddas y bobl eu hystyried wrth ddylunio a chynllunio'r gwasanaeth.<br><br>Anaml y caiff anghenion y bobl eu diwallu gan mai anaml y mae'r mannau cymunedol a phreifat yn diwallu anghenion y bobl, gan lesteirio eu hannibyniaeth a chynnig cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer cyfarfodydd preifat, gweithgareddau a hamdden. Mae'r mannau byw yn ymarferol ond nid ydynt yn gartrefol nac yn lân, ac ni roddwyd llawer o sylw i'r addurn nac i ansawdd y dodrefn. Mae ardaloedd y staff yn rhan o'r mannau byw, sy'n effeithio ar lesiant y bobl ac yn dangos diffyg parch at y ffaith bod y gwasanaeth yn gartref i'r bobl. |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| ddefnyddio'r ardaloedd byw mewn ffordd greadigol o fudd i'r bobl. Mae'r amgylchedd wedi'i ddylunio mewn ffordd glyfar er mwyn diwallu anghenion y bobl a bodloni eu dewisiadau gymaint â phosibl, gan ddefnyddio ffyrdd arloesol o hyrwyddo annibyniaeth.<br><br>Mae'r darparwr yn dangos ymrwymiad cadarn iawn i sicrhau y caiff yr adeilad ac unrhyw gyfarpar eu cynnal a'u cadw a'u gwasanaethu i safon uchel iawn. Anogir y bobl i helpu i addurno neu ddodrefnu'r adeilad lle y bo'n bosibl. Caiff y bobl ofal a chymorth neilltuol gan fod systemau cadarn iawn ar waith gan y darparwr ar gyfer nodi unrhyw addasiadau i'r amgylchedd neu addasiadau i gyfarpar sydd eu hangen ar y bobl a'u rhoi ar waith.<br><br>Mae darparwr y gwasanaeth yn mynd ati i chwilio am dechnoleg | gwasanaeth yn sicrhau bod dodrefn a chyfarpar addas i ddiwallu anghenion a bodloni dewisiadau'r bobl. Mae hyn yn cynnwys gwelyau arbenigol, systemau galw, cyfarpar symud a chodi a chario a mynediad at gyfleusterau cyfathrebu. Mae'r ystafelloedd ymolchi, y cawodydd a'r toiledau wedi'u dylunio i sicrhau preifatrwydd, urddas, diogelwch a hygyrchedd.<br><br>Mae'r darparwr yn sicrhau bod systemau effeithiol ar waith i gynnal a chadw a rheoli'r llety ac i wneud yr addasiadau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion y bobl.<br><br>Mae'r gwasanaeth yn defnyddio technoleg a chyfarpar i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl ac i gefnogi eu hannibyniaeth, yn unol â'u lles pennaf. | amgylchedd ffisegol a'r cyfarpar yn y cartref. Mae'r trefniadau ar gyfer addurno a chynnal a chadw'r llety yn annigonol, gan gynnwys ymdrechion anfoddhaol i addasu rhai o'r cyfleusterau i ddiwallu anghenion a bodloni dymuniadau'r bobl. Nid yw'r cyfarpar yn y gwasanaeth bob amser yn cael ei gynnal a'i gadw a'i wasanaethu fel y bo angen. Er y caiff rhywfaint o gyfarpar arbenigol ei ddarparu, nid oes digon ohono, neu nid yw bob amser ar gael pan fo'i angen, neu nid yw'n addas i ddiwallu anghenion y bobl.<br><br>Nid oes gan ddarparwr y gwasanaeth ymwybyddiaeth na dealltwriaeth o dechnolegau a chyfarpar gofal a chymorth a allai gael effaith gadarnhaol ar y canlyniadau i'r bobl.<br><br>Nid yw'r gerddi a'r ardaloedd awyr agored yn hygyrch i rai o'r bobl yn y gwasanaeth gan fod ganddynt | Mae'r ffaith bod ardaloedd y staff yn rhan o'r mannau byw yn cael effaith negyddol ar lesiant y bobl ac yn dangos diffyg parch at sancteiddrwydd eu cartref.<br><br>Ceir diffyg ymrwymiad gan y darparwr i wneud yr addasiadau angenrheidiol i ddiwallu anghenion y bobl. Nid oes gan y darparwr systemau digonol ar waith i reoli a chynnal a chadw'r llety yn effeithiol.<br><br>Ceir diffyg cyfarpar arbenigol sy'n rhoi diogelwch y bobl, urddas ac ansawdd y gofal yn y fantol.<br><br>Lle bônt ar gael, ni chaiff yr ardaloedd awyr agored eu defnyddio'n ddigonol, ac mae mynediad iddynt yn gyfyngedig gan fod y staff yn or-awyddus i osgoi risgiau. Lle ceir mannau awyr agored hygyrch cyfyngedig, nid yw'r darparwr yn nodi nac yn hwyluso mynediad at fannau |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| newydd a datrysiadau newydd a chynaliadwy er mwyn helpu'r bobl i fyw â chyn lleied o gyfyngiadau â phosibl.<br><br>Mae'r ardd a'r ardaloedd awyr agored yn esiampl o ragoriaeth o ran eu dyluniad, gan ddarparu mannau neilltuol lle gall y bobl ymgysylltu â byd natur yn ddiogel ac yn ddirwystr. Mae dull arloesol a chreadigol y darparwr yn sicrhau bod y mannau hyn wedi'u teilwra er mwyn diwallu anghenion corfforol, synhwyraidd a gwybyddol y bobl mewn ffyrdd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r mannau hyn yn groesawgar ac yn galluogi'r bobl i fentro allan ar eu pen eu hunain lle bynnag y bo'n bosibl.<br><br>Lle bo'r mannau awyr agored yn gyfyngedig, mae'r darparwr yn dangos blaengaredd eithriadol drwy helpu unigolion i fanteisio ar ardaloedd awyr agored amgen yn y gymuned. Mae hyn yn gwella | Lle bônt ar gael, mae'r mannau awyr agored yn ddiogel, yn ddeniadol ac yn hygyrch i bawb, gan gynnwys y bobl hynny ag amhariadau corfforol, synhwyraidd a gwybyddol. Lle bo'r mannau awyr agored yn gyfyngedig yn y gwasanaeth, caiff y bobl yn aml eu cefnogi i fanteisio ar fannau awyr agored yn y gymuned ehangach. | broblemau corfforol neu synhwyraidd ac nid yw'r darparwr yn mynd ati i chwilio am ffyrdd amgen o'u helpu i fanteisio arnynt. Pan fo mannau awyr agored yn gyfyngedig, anaml y caiff mynediad at fannau gwyrdd allanol ei drefnu. | amgen yn y gymuned leol i'r rhai hynny sydd am fanteisio arnynt. |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| llesiant corfforol, llesiant meddwl a llesiant emosiynol y bobl yn sylweddol, gan ddangos ymrwymiad i gymorth o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn drwy ddefnydd creadigol ac arloesol o adnoddau. | | | |
| Caiff anghenion gofal a chymorth y bobl eu diwallu drwy systemau rheoli diogelwch hynod effeithiol y darparwr, sy'n llwyddo i ragweld risgiau yn y cartref a'u lliniaru mewn ffyrdd sy'n sicrhau cymaint o awtonomi ac annibyniaeth â phosibl i'r bobl. Maent yn seiliedig ar yr ymarfer gorau ac yn sicrhau ymarfer rhagorol a gwelliannau yn y gwasanaeth dros amser. Mae darparwr y gwasanaeth yn ymgysylltu mewn ffordd ragweithiol â'r bobl, gweithwyr proffesiynol a sefydliadau i asesu ac i leihau'r risgiau a nodwyd yn yr amgylchedd, ar y safle ac mewn perthynas â chyfarpar.<br><br>Caiff mesurau diogelwch cynhwysfawr y darparwr eu rhoi | Gall y bobl symud o gwmpas y safle yn hawdd a chael gafael ar y cyfarpar angenrheidiol yn ddiogel, ac mae hyn yn ystyriaeth allweddol i'r darparwr.<br><br>Mae darparwr y gwasanaeth yn mynd ati i ragfynegi a rheoli'r risgiau i'r bobl, ac o'r farn bod cyfrifoldeb ar y cyd ar bob aelod o'r staff i wneud hynny. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn gyfarwydd â'r strategaethau ac yn eu cymhwyso'n gyson.<br><br>Mae gwaith gwasanaethu a chynnal a chadw rheolaidd a gwaith atgyweirio sy'n cael ei wneud ar unwaith mewn perthynas â'r cyfleusterau yn | Nid yw'r asesiadau risg cyffredinol ar gyfer y cartref cyfan yn ddigon manwl, ac nid yw'r rheolwyr na'r staff yn gweithredu ar ganfyddiadau mewn modd cyson.<br><br>Mae'r bobl yn wynebu risg o niwed gan nad yw'r tystysgrifau diogelwch ar gyfer rhai darnau o gyfarpar a rhai o'r cyfleusterau o bosibl yn gyfredol.<br><br>Mae'r cartref a'r tir o'i gwmpas yn ddiogel, ond nid yw'r mesurau diogelwch hynny yn ystyried hawliau, preifatrwydd nac urddas pob un o'r bobl yn y gwasanaeth mewn modd cyson. | Nid yw'r bobl na'r staff yn teimlo'n ddiogel gan fod y cynlluniau rheoli risg yn aneglur a cheir diffyg cydgysylltiad rhyngddynt. Mae hyn yn arwain at ddiwylliant o osgoi risgiau ac arferion cyfyngol sy'n cael effaith negyddol ar lesiant y bobl.<br><br>Prin yw'r ymdrech y mae darparwr y gwasanaeth yn ei gwneud, os o gwbl, i asesu, monitro neu wella diogelwch yn y gwasanaeth. Mae'r staff yn anwybyddu polisïau a gweithdrefnau'r darparwr ar gyfer sicrhau diogelwch y bobl yn y cartref yn rheolaidd neu'n bwrpasol. |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| ar waith yn fanwl er mwyn amddiffyn y bobl ond gan ddiogelu eu hawliau, eu preifatrwydd a'u hurddas ar yr un pryd. Mae'r mesurau hyn yn sicrhau y caiff eiddo personol ei ddiogelu ac yn hwyluso trefniadau priodol sy'n dangos parch wrth i bobl gyrraedd a gadael y safle. | sicrhau diogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.<br><br>Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod y safle yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol a chanllawiau cenedlaethol mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, diogelwch tân, iechyd yr amgylchedd ac unrhyw safonau a bennwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.<br><br>Mae trefniadau diogelwch ar waith i amddiffyn y bobl, heb amharu ar eu hawliau, eu preifatrwydd na'u hurddas. Mae hyn yn cynnwys diogelu eiddo personol a darparu mynediad priodol i'r safle ac oddi yno. Lle caiff system CCTV ei defnyddio, caiff ei rheoleiddio er mwyn sicrhau ei bod yn agored, yn bwrpasol, yn gyfreithlon a'i bod yn parchu preifatrwydd ac urddas y bobl. | | Mae'r systemau cynnal a chadw wedi'u trefnu'n wael neu'n cael eu hanwybyddu gan y staff, gan beri risg i ddiogelwch y bobl gan fod cyfarpar yn aml yn camweithredu neu'n cael ei wasanaethu'n wael. Nid yw'r staff yn deall y gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am faterion cynnal a chadw neu faterion sy'n ymwneud â glendid, gan arwain at oedi wrth ymdrin â materion iechyd a diogelwch sy'n effeithio ar ganlyniadau llesiant y bobl.<br><br>Nid yw mesurau diogelwch y darparwr yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol, gan fethu â diogelu'r bobl ac amharu ar eu hawliau, eu preifatrwydd a'u hurddas. Nid yw'r mesurau annigonol hyn yn sicrhau y caiff eiddo personol ei ddiogelu ac maent yn llesteirio trefniadau priodol sy'n dangos parch wrth i bobl gyrraedd a gadael y safle. |

# Thema Arolygu: Arweinyddiaeth a Rheolaeth

**Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld:**

Nod y safonau yn y Rheoliadau yw sicrhau bod darparwyr gwasanaethau yn rhoi trefniadau llywodraethu ar waith sy'n eu helpu i weithredu'n ddidrafferth ac yn darparu sylfaen ar gyfer gofal o ansawdd uchel, gan helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau llesiant.

**Llinell ymholi 10: Caiff y bobl gymorth i gyflawni eu canlyniadau gan fod darparwr y gwasanaeth wedi rhoi trefniadau sefydliadol, trefniadau llywodraethu a threfniadau goruchwylio effeithiol ar waith i sicrhau gweithrediadau hwylus a gofal o ansawdd uchel.** Mae hyn yn cynnwys gwiriadau ansawdd a phrosesau sicrwydd effeithiol sy'n ysgogi gwelliannau parhaus i'r gwasanaeth; meithrin tryloywder drwy rannu gwybodaeth gywir a hygyrch â'r bobl, comisiynwyr gofal, cyrff rheoleiddio, asiantaethau a gweithwyr proffesiynol am y gwasanaeth a'r ffordd y caiff ei ddarparu; casglu adborth ac ymateb iddo; cefnogi'r staff i godi pryderon ac i ddilyn prosesau chwythu'r chwiban; ymdrin â chwynion yn effeithiol, a dysgu ohonynt er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarperir.

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| Mae lefelau hyder uchel ymhlith y bobl tuag at ddarparwr y gwasanaeth gan fod arweinwyr y gwasanaeth yn sicrhau bod diwylliant cadarnhaol cadarn iawn ar waith sy'n gefnogol, yn gynhwysol ac yn dangos parch. Mae'r arweinwyr yn llywio'r gwasanaeth yn hyderus drwy heriau pan fo angen. Mae'r arweinwyr yn fodelau rôl gweladwy wrth lywio'r cyfeiriad strategol a chyflymder newidiadau.<br><br>Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo ac yn cynnal diwylliant cadarnhaol sy'n sicrhau cyfleoedd cyfartal ac arferion gwrth-wahaniaethol i bob | Mae trefniadau goruchwylio a llywodraethu darparwr y gwasanaeth yn meithrin diwylliant cadarnhaol a thosturiol yn y gwasanaeth.<br><br>Mae systemau monitro ansawdd effeithiol ar waith gan gynnwys archwiliadau o'r gofal a'r cymorth a ddarperir, trefniadau i'r arweinwyr ymweld â'r gwasanaeth, ac adborth gan y bobl, y staff a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r gwasanaeth. Defnyddir y wybodaeth hon i ysgogi gwelliannau parhaus yn y gwasanaeth. Mae hyn yn meithrin hyder y bobl yn y ffordd y caiff y | Nid oes hyder gan y bobl yn yr arweinwyr bob amser. Mae'r ymdrechion a wneir gan arweinwyr y gwasanaeth i hyrwyddo diwylliant cadarnhaol yn gyfyngedig.<br><br>Mae'r systemau llywodraethu a rheoli perfformiad yn annibynadwy ac nid ydynt bob amser yn effeithiol, gan arwain at systemau na chânt eu hadolygu'n rheolaidd a / neu risgiau na chânt eu nodi na'u rheoli mewn modd cyson.<br><br>Weithiau mae adolygiadau perfformiad y gwasanaeth yn arwynebol, ac mae'r adroddiadau | Nid oes gan y bobl hyder yn yr arweinwyr. Ceir diwylliant negyddol yn y gwasanaeth gan nad yw'r arweinwyr yn fodelau rôl gweladwy, ac nid yw'r staff na'r bobl yn eu hadnabod yn dda.<br><br>Nid yw gweledigaeth y darparwr ar gyfer y gwasanaeth yn glir, ni cheir perchnogaeth gyffredinol drosti ac nid yw'n canolbwyntio ddigon ar wella canlyniadau. Lle bo angen gwelliannau, nid yw'r staff yn teimlo'n hyderus i gyfrannu atynt nac i'w rhoi ar waith. Nid yw'r staff yn gallu addasu, na meddwl yn greadigol, er mwyn diwallu anghenion y bobl |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| nodwedd warchodedig. Mae gweledigaeth glir y darparwr ar gyfer y gwasanaeth o fudd i'r bobl, yn ysbrydoli ei staff ac yn hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant i bawb.<br><br>Mae'r arweinwyr yn anelu at nodau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant penodol ac yn gallu dangos y cynnydd y maent yn ei wneud tuag at eu cyflawni. Mae'r sefydliad yn cynnig hyfforddiant arbenigol i gefnogi'r rheolwyr a'r staff, yn adolygu adborth yn gyson er mwyn gwella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.<br><br>Mae nodau ac amcanion darparwr y gwasanaeth yn llywio'r gofal a'r cymorth a ddarperir. Caiff y nodau a'r amcanion hyn eu hadolygu'n rheolaidd ac maent yn adlewyrchu cyfranogiad y bobl | gwasanaeth ei reoli ac yn y tîm arwain.<br><br>Mae cynlluniau wrth gefn da ar waith gan y darparwr i gynnal gweithgareddau busnes critigol os ceir unrhyw broblemau fel methiannau i'r cyflenwad pŵer, methiannau TG, tywydd garw, salwch, neu os bydd adeiladau a ffyrdd yn cael eu cau.<br><br>Mae polisïau a gweithdrefnau'r darparwr yn briodol ac yn gymesur mewn perthynas ag anghenion y bobl sy'n cael eu cefnogi gan y gwasanaeth, ac mae'r staff yn eu deall ac yn eu rhoi ar waith. Caiff y polisïau a'r gweithdrefnau eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol cyfredol.<br><br>Mae darparwr y gwasanaeth wedi llunio systemau i sicrhau gwaith cynllunio ariannol, gwaith monitro | ansawdd yn dangos bod y gwaith a wneir i ddadansoddi canlyniadau prosesau monitro yn anghyson neu'n gyfyngedig.<br><br>Nid yw'r archwiliadau o ansawdd y gofal a gaiff eu cwblhau gan y rheolwyr yn cyrraedd y safon ofynnol. Nid ydynt yn ymdrin â phob agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir ac nid ydynt yn cynnwys gwaith dadansoddi manwl na chynlluniau gweithredu i wella ansawdd y gwasanaeth i'r bobl.<br><br>Ni chaiff cynlluniau wrth gefn y darparwr bob amser eu hadolygu a'u diweddaru er mwyn sicrhau y gellir parhau i ddiwallu anghenion y bobl os bydd unrhyw beth yn amharu ar y gwasanaeth. Mae hyn yn peri risg i'r bobl.<br><br>Nid yw'r staff bob amser yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i bolisïau'r darparwr, neu nid ydynt yn gwybod ble i ddod o hyd i'r | a chyflawni eu canlyniadau a'u dymuniadau.<br><br>Mae'r gofal a'r cymorth a gaiff y bobl o ansawdd gwael gan fod y systemau monitro ansawdd sydd ar waith gan y darparwr yn wan. Ceir diffyg gwaith monitro gan y rheolwyr a'r arweinwyr. Nid yw'r rolau, y cyfrifoldebau na'r trefniadau atebolrwydd yn y gwasanaeth yn glir, ac nid yw'r staff yn cael adborth adeiladol gonest am eu perfformiad nac am y meysydd y mae angen eu gwella.<br><br>Mae'r bobl yn wynebu risg gan nad yw systemau'r darparwr ar gyfer nodi, cofnodi a rheoli risgiau sefydliadol a chynlluniau wrth gefn yn effeithiol, a ni chaiff rhai o'r gofynion cyfreithiol eu bodloni neu nid yw'r rheolwyr na'r staff yn eu deall yn iawn.<br><br>Nid yw'r staff yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau'r |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| sy'n defnyddio'r gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill.<br><br>Mae cynlluniau wrth gefn cynhwysfawr iawn ar waith os bydd argyfwng. Mae'r rhain yn sicrhau bod y bobl yn derbyn parhad gofal rhagorol o hyd.<br><br>Caiff y bobl a'r staff eu cynnwys mewn modd ystyrlon wrth adolygu a diweddaru'r polisïau a'r gweithdrefnau.<br><br>Mae gan ddarparwr y gwasanaeth gydberthnasau gwaith cryf ag eraill yn y sector, gan rannu arferion gorau er mwyn hyrwyddo gofal a chymorth o ansawdd uchel i bobl ym mhob rhan o'r sector. | cyllidebol a rheolaeth effeithiol yn y gwasanaeth. Mae hyn yn sicrhau bod canlyniadau llesiant y bobl yn gyson dda. | fersiynau diweddaraf er mwyn gallu cyfeirio atynt.<br><br>Mae systemau anghyson ar waith gan ddarparwr y gwasanaeth i sicrhau gwaith cynllunio ariannol, gwaith monitro cyllidebol a rheolaeth effeithiol yn y gwasanaeth. Mae hyn yn peri risg i lesiant y bobl. | darparwr neu nid ydynt yn eu dilyn yn rheolaidd. Nid yw'r darparwr yn cydnabod hyn nac yn ymdrin â'r mater yn briodol.<br>Prin yw'r dystiolaeth, os o gwbl, i ddangos bod cydraddoldeb a chynhwysiant yn cael eu cynnwys o fewn polisïau, gweithdrefnau a chynlluniau neu fel rhan o ymarfer y staff.<br><br>Mae systemau darparwr y gwasanaeth i sicrhau gwaith cynllunio ariannol, gwaith monitro cyllidebol a rheolaeth effeithiol yn y gwasanaeth yn aneffeithiol, gan arwain at ddiffyg buddsoddiad ariannol yn y gwasanaeth. Mae hyn yn effeithio ar lesiant y bobl. |
| Mae'r arweinwyr yn cynnwys comisiynwyr, gweithwyr proffesiynol, y staff a'r bobl mewn prosesau sicrhau ansawdd, gan werthfawrogi eu hadborth er mwyn ysgogi gwelliannau parhaus, cynaliadwy hynod | Mae darparwr y gwasanaeth yn goruchwylio ansawdd y gofal drwy brosesau archwilio effeithiol. Mae'r wybodaeth a gesglir o archwiliadau mewnol ac allanol yn llywio adroddiadau adolygu ansawdd, strategaethau gwella a | Nid yw systemau darparwr y gwasanaeth ar gyfer craffu a llunio adroddiadau hunanasesu ar gyfer y gwasanaeth bob amser yn effeithiol. | Ni chaiff yr angen i wella ei gydnabod. Gall hyn arwain at ddulliau rheoli argyfwng adweithiol yn hytrach na phrosesau adeiladol ar gyfer sicrhau ansawdd a hunanwerthuso. |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| effeithiol. Mae'r dull cynhwysol hwn yn sicrhau cynlluniau gwella dynamig sy'n cydymffurfio â'r arferion gorau ym maes gofal cymdeithasol, gan wella'r canlyniadau i'r bobl yn sylweddol.<br><br>Mae'r darparwr yn defnyddio archwiliadau cynhwysfawr o bob agwedd ar y gwasanaeth i fonitro arferion. Mae'n cwblhau dadansoddiadau hynod fanwl o ganfyddiadau archwiliadau ac yn cymryd camau o ganlyniad i hynny i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ran ansawdd gofal, gan arwain at welliannau cynaliadwy hynod effeithiol i'r bobl.<br><br>Mae darparwr y gwasanaeth yn dathlu cyflawniadau'r staff drwy fentrau sy'n cydnabod y rhai hynny sy'n darparu gofal a chymorth neilltuol. Mae'n ymgysylltu mewn ffordd gadarnhaol â'r staff er mwyn cael syniadau ar gyfer gwella'r | phrosesau ar gyfer datrys problemau yn gyflym.<br>Mae'r darparwr yn cydweithio â gweithwyr proffesiynol allanol i hwyluso gwelliannau, a chaiff adborth ei ddefnyddio i lywio'r gwelliannau a gaiff eu cynllunio. Caiff systemau eu llunio i hwyluso a gwerthuso syniadau newydd.<br><br>Mae'r darparwr yn helpu'r staff i ddatblygu sgiliau arwain ar bob lefel.<br><br>Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau y caiff hysbysiadau amserol eu hanfon at yr awdurdodau perthnasol os ceir digwyddiadau o bwys yn y gwasanaeth. Mae hyn yn sicrhau y caiff camau gweithredu priodol eu cymryd yn ddi-oed i ddiogelu'r bobl ac i sicrhau ansawdd y gwasanaeth. | Ni chaiff adborth mewnol ac allanol bob amser ei ddadansoddi'n effeithiol ac ni weithredir arno mewn modd amserol, ac weithiau caiff materion sy'n dod i'r amlwg eu methu hyd nes y byddant wedi dod yn broblemau mwy.<br><br>Nid yw'r darparwr bob amser yn helpu'r staff i ddatblygu sgiliau arwain ar bob lefel.<br><br>Ni chaiff yr awdurdodau perthnasol eu hysbysu'n gyson am ddigwyddiadau o bwys yn y gwasanaeth. Mae rhai o'r bobl yn wynebu achosion o oedi wrth gael cyngor proffesiynol amserol o ganlyniad i hyn, ac mae hynny'n achosi risg o niwed i'w hiechyd a'u llesiant. | Ni chaiff safbwyntiau a phrofiadau'r bobl eu clywed, ac nid yw'r darparwr yn gwneud ymdrechion digonol i gasglu adborth mewn ffyrdd ystyrlon sy'n diwallu anghenion cyfathrebu ac yn bodloni dewisiadau cyfathrebu'r bobl.<br><br>Mae'r trefniadau ar gyfer goruchwylio ac archwilio elfennau allweddol o'r gofal a'r cymorth a ddarperir naill ai'n absennol neu'n arwynebol. Mae hyn yn effeithio ar ansawdd y gofal a ddarperir ac yn llesteirio cynlluniau gwella.<br><br>Nid yw'r arweinwyr yn adeiladu ar lwyddiannau er mwyn ysgogi gwelliannau pellach, gan fethu â chymell y staff i gymryd rhan mewn prosesau sicrhau ansawdd.<br><br>Nid yw'r darparwr yn helpu'r staff i ddatblygu sgiliau arwain ar bob lefel. |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| gwasanaeth ac yn eu cynnwys wrth gynllunio a rhoi'r syniadau hynny ar waith.<br><br>Ceir ymrwymiad cryf iawn i feithrin sgiliau arwain y staff ar bob lefel.<br><br>Mae'r darparwr yn dangos ymrwymiad cryf iawn i rannu gwybodaeth ag awdurdodau perthnasol am ddigwyddiadau yn y gwasanaeth, gan feithrin tryloywder, a lefelau uchel o ymddiriedaeth ac atebolrwydd, yn unol â'i ddyletswydd gonestrwydd. | | | Anaml y mae darparwr y gwasanaeth yn hysbysu'r awdurdodau perthnasol pan geir digwyddiadau o bwys, fel damweiniau, anafiadau neu achosion o amharu ar y gwasanaeth a ddarperir. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar ganlyniadau'r bobl drwy achosi oedi wrth ofyn am gyngor amserol gan asiantaethau allanol a gweithwyr proffesiynol. |
| Mae'r bobl yn hyderus yn rhoi adborth gan eu bod yn gwybod y caiff ei groesawu ac yr ymatebir iddo yn ysbryd partneriaeth.<br><br>Mae'r darparwr yn cynnwys y bobl a'r staff mewn mentrau ymarferol i wella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y gwasanaeth. Gallai hyn gynnwys rhoi cyfle i'r bobl a'r staff gymryd rhan wrth | Mae'r darparwr yn annog adborth gan y bobl a'r staff er mwyn helpu i asesu ansawdd y gofal, gan ystyried cyflyrau neu anghenion cyfathrebu penodol ymatebwyr.<br><br>Mae'r bobl yn gwybod y gallant roi adborth am eu profiadau o'r gwasanaeth a gallant wneud hynny drwy amrywiaeth o ddulliau hygyrch. | Ni chaiff y bobl bob amser eu hannog i roi adborth, neu nid oes dulliau hygyrch ar gael iddynt wneud hynny sy'n diwallu eu hanghenion cyfathrebu ac yn bodloni eu dewisiadau cyfathrebu. | Anaml y gofynnir i'r bobl am eu hadborth, neu ni chaiff eu profiadau a'u safbwyntiau eu hystyried mewn ffordd ystyrlon gan ddarparwr y gwasanaeth wrth asesu ansawdd y gofal. Os gofynnir am adborth gan y bobl, ni chaiff eu cyflyrau neu eu hanghenion cyfathrebu penodol eu hystyried yn ddigonol. |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| lunio strategaethau, casglu adborth a chynnal arolygon. | Caiff y bobl wybod am ganlyniadau eu hadborth. Gwneir hyn mewn modd amserol a thrwy dulliau cyfathrebu sy'n diwallu eu hanghenion ac yn bodloni eu dewisiadau. | | Ceir diwylliant caeedig yn y gwasanaeth lle na chaiff syniadau newydd eu hannog a lle na chaiff gwersi eu dysgu. |
| Mae'r bobl yn teimlo'n hyderus yn codi pryderon, gan wybod y caiff eu cyfraniad ei groesawu gan fod diwylliant hynod gadarnhaol o fod yn agored ac o sicrhau tryloywder ym mhob rhan o'r gwasanaeth.<br><br>Mae'r arweinwyr yn dilyn prosesau creadigol a hygyrch wedi'u teilwra'n benodol i ymdrin â phryderon neu gwynion. Gallai hyn gynnwys defnyddio gweithwyr proffesiynol allanol i sicrhau datrysiad annibynnol a gwrthrychol.<br><br>Gydag eithriadau prin, pan aiff pethau o chwith, mae'r arweinwyr yn cymryd camau i ddysgu o'r camgymeriadau. | Mae'r arweinwyr yn meithrin diwylliant o onestrwydd drwy fod yn dryloyw ac yn onest pan fydd camgymeriadau yn digwydd, rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau a'u heffaith, ac ymddiheuro fel y bo'n briodol.<br><br>Mae'r arweinwyr yn atebol am gamau gweithredu, ymddygiad a pherfformiad eu staff.<br><br>Mae'r staff yn gyfarwydd â'r polisi cwynion ac yn gwybod sut i ymateb yn briodol i bryderon neu gwynion.<br><br>Mae'r staff yn deall y ddyletswydd gonestrwydd, a'u cyfrifoldebau chwythu'r chwiban. Mae'r staff yn | Ni chaiff y bobl bob amser eu hannog i fynegi eu safbwyntiau am eu gofal a'u cymorth, ac nid oes dulliau cwyno hygyrch bob amser ar waith.<br><br>Mae'r bobl yn ansicr bod darparwr y gwasanaeth yn cymryd eu cwynion o ddifrif.<br><br>Nid yw'r bobl bob amser yn cael ymateb pan fyddant yn cwyno.<br><br>Mae'r darparwr yn anghyson wrth ddadansoddi cwynion a phryderon a dysgu ohonynt. | Mae'n bosibl y bydd risg y bydd y gwasanaeth yn gwahaniaethu yn erbyn y bobl, y bydd yn ymddwyn mewn ffordd andwyol tuag atynt neu y bydd yn eu haflonyddu ar ôl iddynt gwyno.<br><br>Nid yw'r bobl yn hyderus y caiff eu cwynion eu cymryd o ddifrif, y cynhelir ymchwiliadau trylwyr iddynt, nac yr ymatebir iddynt yn brydlon.<br><br>Pan gaiff cwynion eu gwneud, nid ymdrinnir â nhw mewn ffordd agored, dryloyw, amserol na gwrthrychol, gan adlewyrchu agwedd amddiffynnol gan ddarparwr y gwasanaeth. Mae hyn yn creu diwylliant feirniadol a |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| | cael hyfforddiant ar sut i godi pryderon, gan gynnwys eu rhwymedigaethau proffesiynol, ac maent yn hyderus yn codi materion â'r rheolwyr.<br>Mae'r bobl yn teimlo'n hyderus y caiff eu pryderon neu eu cwynion eu cymryd o ddifrif, y cynhelir ymchwiliadau trylwyr iddynt, ac yr ymatebir iddynt yn brydlon, heb ofni y cânt eu cosbi mewn unrhyw ffordd. | | chosbol, sy'n golygu bod y bobl yn amharod i godi pryderon, a bod y staff yn bryderus ac yn amddiffynnol o ran gwneud camgymeriadau.<br><br>Nid yw'r bobl na'r staff yn glir neu nid ydynt yn gwybod sut i godi pryderon neu wneud cwynion, ac mae'n bosibl na fydd y rhai hynny sy'n gwneud hynny yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Mae'r diffyg cymorth hwn yn golygu nad yw cwynion a phryderon yn ysgogi newidiadau ystyrlon fel y dylent. |

**Llinell Ymholi 11: Mae'r bobl yn cael cymorth gan staff sy'n meddu ar yr arbenigedd, y sgiliau a'r cymwysterau angenrheidiol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl.** Mae darparwr y gwasanaeth yn cynnal nifer priodol o staff gwybodus a chymwys wedi'u fetio, ac yn eu defnyddio mewn ffordd effeithiol yn y gwasanaeth. Mae'r darparwr yn sicrhau bod cyfleoedd dysgu a datblygu parhaus ar gael i'r staff.

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| Mae'r bobl yn cyflawni canlyniadau rhagorol gan fod gan y darparwr ymrwymiad cryf iawn i sicrhau bod niferoedd uchel o staff hynod fedrus a gwybodus yn gweithio yn y gwasanaeth bob amser. Mae gan ddarparwr y gwasanaeth brosesau hynod effeithiol ar waith i sicrhau bod penderfyniadau o ran lefelau staffio yn seiliedig ar wybodaeth fanwl drwy gynnal gwerthusiadau helaeth o anghenion y bobl, ac ystyried y datganiad o ddiben, yr amgylchedd ffisegol a'r cyd-destun lleol.<br><br>Mae hyn yn sicrhau y gall y rheolwyr fod yn hynod ymatebol i sefyllfaoedd brys, neu newidiadau sydyn yn anghenion y bobl, gan gynnal gofal o ansawdd uchel iawn i'r bobl ar yr un pryd.<br><br>Mae safbwyntiau a llesiant y staff yn ffactorau allweddol a gaiff eu | Mae'r bobl yn cyflawni eu canlyniadau personol gan fod darparwr y gwasanaeth yn gwneud yn siŵr bod digon o staff sy'n meddu ar gymwysterau addas ac sydd wedi'u hyfforddi'n addas ar gael i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd.<br><br>Wrth neilltuo staff i'r rota, mae'r rheolwyr yn ystyried cynllun yr amgylchedd, a'r ffordd y mae'r bobl yn defnyddio cyfleusterau'r gwasanaeth, a'r amser sydd ei angen i'r staff gyrraedd y bobl yn y gwasanaeth.<br><br>Mae'r darparwr yn gwirio'r lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau yn rheolaidd ac yn eu haddasu er mwyn diwallu anghenion newidiol y bobl y mae'n eu cefnogi. Mae ganddo gynlluniau ar waith i reoli achosion o salwch neu absenoldebau staff er mwyn | Ni chaiff anghenion y bobl bob amser eu diwallu gan nad oes niferoedd boddhaol o staff sy'n meddu ar gymwysterau priodol yn y gwasanaeth, gan roi pwysau ar y staff sydd ar y shifft. Mae angen atgyfnerthu'r prosesau ar gyfer sicrhau lefelau staffio da er mwyn gwneud yn siŵr bod niferoedd staff a'u cymysgedd sgiliau yn diwallu anghenion newidiol y bobl yn gyson.<br><br>Mae cynlluniau staffio wrth gefn y darparwr yn anghyson ac nid yw'n gweithredu rhyw lawer i ymdrin â hyn.<br><br>Mewn argyfwng, mae'r diffyg staff â chymwysterau a hyfforddiant digonol yn llesteirio gallu'r staff eraill i ddiwallu anghenion unigolion yn effeithiol. | Anaml y caiff anghenion y bobl eu diwallu gan fod darparwr y gwasanaeth yn methu â sicrhau bod niferoedd digonol o staff cymwysedig a hyfforddedig ar gael i gefnogi'r bobl yn effeithiol.<br><br>Mae prosesau'r darparwr ar gyfer adolygu neu addasu lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau yn aneffeithiol, sy'n golygu bod diffyg cyfatebiaeth rhwng sgiliau'r staff, niferoedd y staff ac anghenion newidiol y bobl sy'n cael cymorth ganddynt.<br><br>Mae'r cynlluniau wrth gefn ar gyfer rheoli achosion o salwch neu absenoldebau staff yn annigonol, sy'n amharu'n sylweddol ar y gofal a ddarperir a'r risgiau i'r bobl.<br><br>Mewn argyfwng, ceir diffyg staff â'r hyfforddiant a'r cymwysterau priodol, sy'n gwaethygu'r |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
| --- | --- | --- | --- |
| hystyried wrth asesu lefelau staffio. Ymgynghorir â gweithwyr proffesiynol perthnasol er mwyn llywio'r trefniadau staffio lle y bo'n briodol. | sicrhau bod y bobl yn cael parhad gofal.<br><br>Mewn argyfwng, mae'n sicrhau bod digon o staff â'r cymwysterau a'r hyfforddiant priodol i reoli'r argyfwng ac i ymgymryd â'r dyletswyddau rheolaidd. | | argyfwng ac yn atal y staff sydd ar y shifft rhag diwallu anghenion y bobl. |
| Mae gwerthoedd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan annatod o brosesau recriwtio a chyfleoedd datblygu'r darparwr ar bob lefel.<br><br>Mae'r darparwr yn cynnwys y bobl mewn ffordd ragweithiol wrth wneud penderfyniadau cyflogi er mwyn sicrhau bod y staff sy'n rhoi gofal iddynt wedi'u dewis mewn ffordd ystyriol.<br><br>Mae'r darparwr yn hyrwyddo llesiant y staff mewn ffordd ragweithiol. Mae'n cynnal cyfnodau sefydlu trylwyr, sy'n aml yn mynd y tu hwnt i ganllawiau Gofal Cymdeithasol Cymru ar hyfforddi staff. | Mae gan ddarparwr y gwasanaeth brosesau dethol a fetio caeth ar gyfer cyflogi staff er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff a phob gwirfoddolwr yn gymwysedig ac y gellir ymddiried ynddynt. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod unrhyw aelodau o staff asiantaeth yn cyrraedd yr un safonau â'r staff parhaol.<br>Mae'r staff parhaol yn destun gwiriadau cyffredin a rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n addas i weithio yn y gwasanaeth a'u bod wedi'u cofrestru'n briodol â chyrff proffesiynol. Caiff y bobl eu hannog i gyfrannu at y prosesau recriwtio.<br><br>Caiff cymwysterau a hyfforddiant y staff eu monitro gan y rheolwyr a'r arweinwyr yn y gwasanaeth. Caiff bylchau o ran y cymysgedd sgiliau neu hyfforddiant sydd wedi | Caiff prosesau darparwr y gwasanaeth ar gyfer fetio a dethol aelodau newydd o staff eu cymhwyso mewn modd anghyson.<br><br>Ni chaiff y bobl bob amser eu holi i gael gwybod eu barn a'u dewisiadau o ran pa staff yr hoffent roi cymorth iddynt neu ni weithredir ar hynny yn ystod prosesau recriwtio. | Mae'r bobl wedi cael canlyniadau gwael neu wedi wynebu risg gan fod prosesau darparwr y gwasanaeth ar gyfer dethol a fetio aelodau newydd o staff yn annigonol.<br><br>Ni cheir gwiriadau ffitrwydd cyffredin a rheolaidd ar gyfer aelodau o staff parhaol, gan gynnwys cofrestriadau â chyrff proffesiynol a gwiriadau cofnodion troseddol, neu ni chânt eu cwblhau mewn modd amserol. Pan fydd problemau yn dod i'r amlwg o ran addasrwydd y staff, nid ymdrinnir â nhw'n briodol.<br><br>Nid oes prosesau digonol ar waith gan y darparwr i gadarnhau bod staff asiantaeth yn bodloni'r gofynion o ran addasrwydd, sgiliau a phrofiad sydd eu hangen |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| | dirwyn i ben eu nodi ac ymdrinnir â nhw mewn modd amserol er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael gofal da. | | i gefnogi'r bobl mewn ffordd effeithiol a diogel. |
| Mae'r darparwr yn rhoi blaenoriaeth i hyfforddi a datblygu'r staff. Mae'r hyfforddiant a ddarperir i'r staff yn eang, gan gynnwys hyfforddiant ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, cymhwysedd diwylliannol a hyfforddiant gwrth-hiliaeth er mwyn helpu'r rheolwyr a'r timau i wella eu harferion.<br><br>Mae'r hyfforddiant i'r staff yn arloesol ac yn gynhwysol, a chaiff ei ddatblygu gan gynnwys y staff a'r bobl y maent yn rhoi cymorth iddynt. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi'n dda, gan eu galluogi i ddarparu gofal effeithiol a diogel.<br><br>Mae systemau hynod effeithiol ar waith i adolygu'r hyfforddiant a ddarperir a'r gofynion hyfforddiant yn y gwasanaeth. | Mae'r staff yn cael eu cefnogi'n dda gan ddarparwr y gwasanaeth drwy drefniadau sefydlu effeithiol a darpariaeth hyfforddiant barhaus sy'n berthnasol i anghenion y bobl y maent yn rhoi cymorth iddynt.<br><br>Mae'r staff yn cael copïau o godau proffesiynol a chanllawiau ymarfer perthnasol, a gaiff eu hyrwyddo mewn ffordd weithredol gan y rheolwyr a'r arweinwyr.<br><br>Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio un i un â'u rheolwr llinell o leiaf unwaith bob chwarter, ac adolygiad blynyddol er mwyn rhoi adborth a nodi anghenion hyfforddi. | Mae angen atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer goruchwylio, arfarnu a datblygu staff er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn meddu ar y sgiliau a'r cymhwysedd gofynnol a'u bod wedi cael hyfforddiant i ddiwallu anghenion y bobl. | Nid yw aelodau newydd o staff yn cael cyfnod sefydlu digonol a cheir diffyg hyfforddiant parhaus a pherthnasol wedi'i ddogfennu i bob aelod o'r staff i sicrhau y caiff anghenion y bobl eu diwallu.<br>Nid yw'r staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol ac nid ydynt yn meddu ar gymwysterau digonol, ac mae'r darparwr yn methu â sicrhau y caiff anghenion y bobl eu diwallu gan aelodau o staff cymwysedig a medrus.<br><br>Nid oes gan y staff fynediad digonol at godau proffesiynol neu ganllawiau ymarferol perthnasol, ac nid yw darparwr y gwasanaeth yn llwyddo i hyrwyddo'r safonau hyn yn effeithiol mewn ffordd ragweithiol i'r staff.<br><br>Nid yw'r sesiynau goruchwylio â rheolwyr llinell yn rheolaidd neu nid ydynt yn amserol, ac mae'r adolygiadau blynyddol naill ai'n aneffeithiol neu nid ydynt yn cael eu cynnal, gan olygu nad yw'r |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| Mae'r sefydliad yn ymdrin â pherfformiad gwael yn ddi-oed, gan helpu'r staff i wella eu sgiliau a'u perfformiad mewn ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg. | | | staff yn cael cyfle i roi adborth neu i gael arweiniad un i un er mwyn gwella a datblygu. Mae hyn yn arwain at weithlu nad yw wedi'i baratoi'n briodol, isel ei gymhelliant, na all ddarparu gofal o ansawdd uchel. |

**Llinell ymholi 12: Ar gyfer gwasanaethau cymorth cartref yn unig – Mae'r bobl yn cael cymorth gan staff sydd â digon o amser i ddarparu gofal, ac sy'n cael dewis o ran eu trefniadau cytundebol.**

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| Mae'r bobl yn cael gofal gan aelodau o staff sydd wedi'u paratoi ar gyfer teithio, traffig a pharcio. Caiff pob ymweliad ei gynllunio'n fanwl er mwyn cynnwys amser i ryngweithio mewn ffordd ystyrlon ac i roi cymorth emosiynol, yn o gystal â gofal corfforol wedi'i bersonoli sy'n ystyried anghenion a dewisiadau'r unigolyn. Os na fydd yr amser a ddyrannwyd ar gyfer yr ymweliad yn ddigonol, mae'r darparwr yn ailasesu'r ddarpariaeth gofal mewn ffordd ragweithiol ac yn rhoi gwybod i'r comisiynwyr yn ddi-oed am unrhyw addasiadau.<br><br>Mae'r bobl yn gyfarwydd iawn ag enwau eu staff dyddiol, ac yn cael eu cefnogi gan grŵp cyson o ofalwyr sy'n ymwybodol o'u dewisiadau unigryw. | Mae'r bobl yn cael gofal gan aelodau o staff y mae systemau ganddynt ar waith i drefnu ymweliadau cymorth cartref gan ystyried amseroedd teithio realistig a ffactorau fel traffig a pharcio.<br><br>Rhoddir digon o amser gofal i fodloni'r cynlluniau personol. Mae digon o amser wedi'i neilltuo i'r staff gael egwyl rhwng ymweliadau er mwyn gallu gorffwys ac ymlacio.<br><br>Caiff amser gofal a chymorth y bobl ei ddyrannu o fewn amserlenni sy'n seiliedig ar gynlluniau gofal unigol y bobl, gan wella eu llesiant.<br><br>Caiff staff gofal â chontractau nad ydynt yn cynnig oriau gwarantedig gynnig trefniadau cytundebol amgen sy'n rhoi sefydlogrwydd swydd iddynt, ac sy'n sicrhau | Mae ymweliadau rhai o'r bobl yn hwyr a / neu mae'r apwyntiadau yn fyrrach na'r disgwyl, sy'n golygu bod y bobl yn teimlo eu bod yn cael eu rhuthro, a bod y staff yn canolbwyntio mwy ar dasgau. Mae hyn am fod darparwr y gwasanaeth wedi rhoi systemau ar waith ar gyfer trefnu ymweliadau gan weithwyr gofal cartref. Fodd bynnag, nid yw'r systemau hyn bob amser yn cael eu dilyn neu weithiau maent yn aneffeithiol, sy'n golygu nad oes digon o amser yn cael ei ddyrannu ar gyfer teithio, traffig a pharcio rhwng apwyntiadau. Gallai hyn beri risg i lesiant y bobl.<br><br>Nid yw darparwr y gwasanaeth bob amser yn cynnig trefniadau cytundebol amgen i staff cartref sydd ar gontract nad yw'n cynnig oriau gwarantedig. Ni chaiff y cynigion hynny a wneir bob amser eu cofnodi gan arwain o bosibl at | Ceir effaith ar ansawdd gofal a chymorth y bobl. Mae hyn o ganlyniad i ymweliadau hwyr neu ymweliadau a gaiff eu methu, y staff yn rhuthro rhwng apwyntiadau, gan o bosibl gynyddu eu lefelau straen a pheri risg iddynt.<br><br>Mae darparwr y gwasanaeth yn methu ag ystyried amseroedd teithio ac amodau traffig a pharcio realistig, a all arwain at amserlenni heriol i'r staff cartref.<br><br>Nid yw'r amser a gaiff ei ddyrannu ar gyfer ymweliadau unigol yn gydnaws ag asesiadau'r bobl, gan arwain at brofiadau gofal anfoddhaol i'r bobl.<br><br>Ni chaiff y staff sydd ar gontract nad yw'n cynnig oriau gwarantedig gynnig trefniadau cytundebol amgen, a all greu |

| Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Rhagorol** oherwydd | Mae'r canlyniadau i'r bobl yn **Dda** oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella** y canlyniadau i'r bobl oherwydd | Mae'n **Rhaid gwella'n sylweddol** y canlyniadau i'r bobl oherwydd |
|---|---|---|---|
| Caiff llesiant y staff ei hyrwyddo mewn ffordd weithredol. Caiff newidiadau i'r amserlen eu cydgysylltu mewn ffordd fedrus gan ystyried anghenion y bobl a set sgiliau'r staff bob amser.<br><br>Caiff y bobl eu cynnwys neu eu hysbysu o newidiadau lle bynnag y bo'n ymarferol. Mewn sefyllfaoedd brys, caiff unrhyw newidiadau i'r amserlen eu cyfleu'n ddi-oed i'r bobl, a chaiff aelodau amgen o staff eu dyrannu, y mae'r bobl eisoes yn gyfarwydd â nhw.<br><br>Mae cynlluniau strwythuredig a pharhaus ar waith gan ddarparwr y gwasanaeth er mwyn helpu i gadw staff gofal. | parhad gofal i'r bobl, gan arwain at weithlu uchel ei gymhelliant sy'n darparu gofal da, dibynadwy a chyson, sy'n cael effaith gadarnhaol ar fywydau'r bobl.<br><br>Caiff y bobl eu hysbysu am sefyllfaoedd brys, caiff unrhyw newidiadau i'r amserlen eu cyfleu i'r bobl, a chaiff aelodau amgen o staff eu dyrannu, y mae'r bobl eisoes yn gyfarwydd â nhw. | ansefydlogrwydd swyddi posibl yng ngweithlu'r darparwr a allai beri risg i lesiant y bobl.<br><br>Nid yw'r bobl bob amser yn cael gwybod am newidiadau i ymweliadau a drefnwyd a all effeithio ar eu llesiant. | ansicrwydd o ran eu swyddi ac a allai o bosibl amharu ar ofal y bobl. Gallai'r sefyllfa hon gyfrannu at weithlu sy'n ymddangos yn llai sefydlog, â morâl is, gan arwain at ofal anghyson a llai dibynadwy, a all effeithio ar ganlyniadau llesiant y bobl.<br><br>Nid yw'r bobl yn cael gwybod am newidiadau i'r amserlen sy'n effeithio ar eu llesiant ac a all achosi straen i'r staff gan y bydd angen iddynt ymgymryd ag ymweliadau ychwanegol. |